PAPUR YMGYNGHORI

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein huchelgais i ddatblygu'r sector bwyd a diod yng Nghymru ymhellach

**Dyddiad cyhoeddi:** 23 Gorffennaf 2019 **Ymatebion erbyn:** 15 Hydref 2019




















Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

OGL WG38009 © Hawlfraint y Goron 2019

# Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau pellach. Lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, efallai y comisiynir trydydd parti achrededig i wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghorol). Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch a chael gweld y data
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn amgylchiadau penodol)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn amgylchiadau penodol)
- i gludo data (mewn amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost: **Data.ProtectionOfficer@gov.wales**

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: **https://ico.org.uk/**

# Trosolwg

Rydym yn gofyn am eich ymateb i'r cynigion ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ar gyfer cynllun strategol i ddatblygu sector bwyd a diod Cymru ymhellach ar gyfer y cyfnod 2020-2026. Mae'r cynigion yn adeiladu ar lwyddiant Tuag at Dwf Cynaliadwy[1] cynllun gweithredu a ddeilliodd o adroddiad strategaeth 2010 Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru[2]. Mae'r ymgynghoriad yn disgrifio gweledigaeth strategol a chenhadaeth i'r sector, ac mae'n disgrifio'r prif amcanion a chamau gweithredu rydym yn cynnig eu cyflawni.

Mae'r sector bwyd a diod yn rhan o'r Economi Sylfaenol sy'n cael ei disgrifio yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru[3]. Mae ein cynigion yn cyflwyno sut gall y sector bwyd a diod ddatblygu i ffynnu a chreu manteision i Gymru ac i'w chymunedau. Mae'r sector bwyd a diod yn berthnasol i amrywiaeth eang o fuddiannau yng Nghymru ac i heriau ein hoes. Dylai datblygu'r sector fod yn gam cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac mae ein hymgynghoriad yn egluro cyfres gydlynol ac integredig o nodau a chamau gweithredu i wneud hynny.

Rydym yn ymgynghori ynghylch cynllun strategol ac felly nid ydym yn egluro manylion yr hyn byddwn yn ei wneud a phryd, nac yn union sut y byddwn yn rhoi'r cynllun ar waith. Mae amgylchiadau'n newid ac mae arnom eisiau ymateb ac addasu yng nghyd-destun prif nodau'n cynllun. Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredol a gweithdrefnau atodol drwy gydol 2020-2026. Rydym yn dechrau gydag amrywiaeth eang o fentrau sydd eisoes ar waith, ac sydd wedi llwyddo. Byddwn yn eu hadolygu ac yn eu gwella wrth i ni symud o'n strategaeth a'n cynllun gweithredu cyfredol i'n cynllun strategol newydd. Bydd mentrau newydd yn dechrau, ac mae'n bosibl y daw rhai mentrau presennol i ben.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi cynllun strategol gorffenedig ar gyfer 2020-2026 ddiwedd 2019 neu ddechrau 2020.

### Sut mae ymateb?

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i:
FoodandDrinkConsultation@gov.wales

Dyddiad cau'r ygmynghoriad yw canol nos **15 Hydref 2019**. Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras a Braille. Cysylltwch â ni yn:
FoodandDrinkConsultation@gov.wales

Yr Uned Strategaeth a Pholisi Bwyd
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

1 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/amdanom-ni/cynllun-gweithredu)
2 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/Bwyd%20i%20Gymru%20Bwyd%20o%20Gymru.pdf)
3 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf)

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig | 6 |
| Rhagair gan Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru | 7 |
| Pennod 1: Ein Gweledigaeth a'n Bwriad | 8 |
| Pennod 2: Datblygu ein Busnesau | 17 |
| Pennod 3: Bod o Fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas | 25 |
| Pennod 4: Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd | 31 |
| Pennod 5: Partneriaethau rydym yn eu ceisio gyda'r sector bwyd a diod | 37 |
| Atodiad 1: Targedau a Dangosyddion | 41 |

# Rhagair gan Lesley Griffiths AC

Mae ein sector bwyd a diod ni'n llwyddiant. Mae'n tyfu ac mae ein proffil yn codi. Mae yna awydd ac mae yna egni i lwyddo. Drwy bopeth rydym wedi'i gyflawni o dan ein Cynllun Gweithredu cyfredol (*Tuag at Dwf Cynaliadwy*), ac yn ganolog i'n llwyddiant mae gwir bartneriaeth rhwng busnesau, arbenigwyr technegol a llywodraeth. Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi darparu arweinyddiaeth a chyngor gwerthfawr. Rwyf yn ddiolchgar iddynt, ac yn edrych ymlaen at gam nesaf ein gwaith wrth i'r Bwrdd a minnau geisio helpu'r sector i adeiladu ar ei lwyddiant.

Mae Brexit yn golygu ansicrwydd a heriau. Sut bynnag, wrth i'r sefyllfa ddatblygu, gallwn fod yn hyderus bod ein sector bwyd a diod yn dechrau o fan cychwyn da. Bydd Brexit yn amharu arnom yn sylweddol ond ni ddylai ein hatal rhag adnabod a mynd i'r afael â'r heriau tymor hir mae'n rhaid i ni eu hwynebu a mynd i'r afael â nhw. Ein nodau fydd codi cynhyrchiant, tyfu, arferion busnes cynaliadwy, ysgogi gwytnwch drwy'r gadwyn gyflenwi, ychwanegu gwerth at ein cynnyrch, hyrwyddo llwybrau cryf at farchnadoedd y byd a chodi ein proffil. Drwy bopeth a wnawn, byddwn yn dangos bod y sector yn gwireddu'n gwerthoedd ac yn creu llesiant ar gyfer Cymru gyfan.

Mae'r cynllun strategol hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ein sylfaen gweithgynhyrchu. Nid yw'n gynnig i newid y system fwyd yn gyfannol oherwydd rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol yn y DU ac yn fyd-eang sy'n ymateb i ddefnyddwyr. Ond mae'n gynllun ynghylch sut mae datblygu'r sector mewn ffyrdd cynaliadwy, gwella llesiant Cymru a chreu rhwydweithiau cryf sy'n helpu i wneud ein system fwyd yn fwy cadarn. Mae'r cynigion yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru a'i huchelgais i gyfoethogi cymunedau Cymru. Maent yn cysylltu â chynlluniau a datblygiadau cysylltiedig ar gyfer iechyd y cyhoedd, gwastraff a lleihau carbon, defnyddio adnoddau'n gynaliadwy, darparu gwaith a chyflogaeth deg ar draws ein heconomi, yr economi, a'n proffil rhyngwladol, i enwi dim ond rhai. Mae Cymru yn meddu ar yr adnoddau i ddatblygu i fod yn genedl gweithgynhyrchu bwyd a diod enwog mewn ffyrdd o fydd o fantais i'n pobl ac i'n cymdeithas drwyddi draw. Drwy'r ffyrdd cysylltiedig hyn, drwy amryfal fentrau, rydym ar siwrnai i wella ein system fwyd i bawb.

Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi gweithio gyda fy nhîm i gyfrannu at y cynigion hyn. Mae ar y Bwrdd a minnau eisiau gweld sector cryf a ffyniannus, sector sydd ag enw da yn fyd eang am gynhyrchu bwyd a diod rhagorol. Edrychaf ymlaen at eich ymateb, gyda golwg ar lunio fersiwn terfynol ein cynllun strategol newydd yn ystod y misoedd nesaf.





**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

# Rhagair gan Andy Richardson

Rwyf yn hynod falch o gael cadeirio Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

Rwyf yn credu bod rhywbeth arbennig a chyffrous ynghylch sut mae Bwyd a Diod Cymru yn tyfu ar hyn o bryd, o ran maint, gwerth a hyder. Nid oes dwywaith bod ein hyder, ein proffesiynoldeb a'n maint yn tyfu ac nid yw'r llwyddiant hwn wedi digwydd ar hap. Er fy mod mor falch am y rhan y mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi'i chwarae yn y llwyddiant hwn, rhaid cydnabod bod ein gwir lwyddiant wedi cael ei gyflawni gan waith caled y busnesau bwyd a diod, ymrwymiad, arbenigedd ac egni Llywodraeth Cymru, y partneriaid cyflawni sy'n rhannu ein hangerdd dros lwyddiant ac ymrwymiad, dealltwriaeth ac arbenigedd fy nghydweithwyr ar y Bwrdd. Mae ein llwyddiant yn cael ei gyflawni drwy gydweithio go iawn ac ethos o helpu eraill i fod yn fwy llwyddiannus ac mae'n hynod heintus!


Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru wedi bod yn falch o gael chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wireddu *Tuag at Dwf Cynaliadwy*, fel pencampwr a llysgennad i'r diwydiant. Rydym yn bont rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau ac rydym wedi gweithio'n ddiflino i greu'r llwyddiant hwn.

Mae'r Bwrdd yn credu y bydd partneriaeth barhaus yn allweddol i'n llwyddiannau yn y dyfodol ac na all Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun wthio datblygiad sector bwyd a diod Cymru. Rhaid i fusnesau fod yn gyfrifol am eu llwyddiannau unigol ac am ein dyfodol ar y cyd fel sector. Rydym yn gweithio mewn marchnad ddeinamig a byd-eang lle mae'n rhaid i ni ymateb i'n cwsmeriaid ac i batrymau drwy ddod â chynnyrch newydd i'r farchnad sy'n helpu i siapio'r disgwyliadau a'r gofynion hynny.

Rhaid i ni ganolbwyntio mwy ar wella cynhyrchiant a chynhyrchu bwyd a diod mewn ffordd gynaliadwy. Dylem gydnabod cyfraniad pwysig y sector ac mae modd ymestyn hyn ymhellach i gymdeithas yng Nghymru drwy ddarparu cyflogaeth dda ar draws y wlad, adeiladu cadwyni cyflenwi gyda'n busnesau partner mewn amaethyddiaeth a physgodfeydd, cyfanwerthu ac adwerthu, ac ategu twristiaeth a'n delwedd ryngwladol. Drwy'r cynnyrch sydd ar gael gennym a drwy safonau gweithgynhyrchu a chynhyrchu uchel, gallwn ni wella enw da Cymru ar lwyfan y byd.

Bydd gan y Bwrdd rôl barhaus i lunio fersiynau terfynol y cynigion hyn a bydd yn bartner yn y gwaith o'u cyflawni. Drwy gydol y broses, bydd y Bwrdd yn gyfaill beirniadol ac yn gynghorydd i Lywodraeth Cymru. Byddwn yn gatalydd yn dod â'r diwydiant a'n partneriaid ynghyd er mwyn i ni allu parhau i dyfu sector bwyd a diod ffyniannus yng Nghymru, ar gyfer Cymru a gosod esiampl i'r byd.

Ymunwch â ni ar y cam nesaf o'n siwrnai.





**Andy Richardson**
Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

# Pennod 1: Ein Gweledigaeth a'n Bwriad

Mae Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (y Bwrdd)[4] yn rhannu'r un uchelgais i adeiladu ar lwyddiant. Mae busnesau bwyd a diod, yn fach ac yn fawr, yn llwyddo ar draws y wlad. Ein huchelgais yw rhagori ar ein llwyddiannau hyd yma, gan symud ymlaen o etifeddiaeth gref *Tuag at Dwf Cynaliadwy* a *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru*, ymlaen i'r degawd nesaf gan gamu'n gyflymach at lwyddiant.

Mae modd mynegi ein gweledigaeth yn syml, sef

**Creu sector bwyd a diod cadarn a llewyrchus yng Nghymru, gydag enw da yn fyd-eang am ragoriaeth, ac un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol.**

Ein nod yw

**Datblygu diwydiant bwyd a diod ffyniannus drwy gydweithio â'r sector i gyflawni'r nodau strategol canlynol:**

- Cynyddu graddfa, gwerth a chynhyrchiant ein busnesau drwy dargedu buddsoddiad, gweithgareddau cydweithredol, cymorth ac arloesi drwy'r cadwyni cyflenwi, a drwy greu llwybrau cadarn ac amrywiol i farchnadoedd yn y DU a marchnadoedd allforio.
- Cynnig gwaith teg a gyrfaoedd atyniadol er budd ein pobl a'n cymdeithas, gan ymrwymo i ddatblygu sgiliau'r gweithlu, defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy ac annog busnesau i chwarae rhan mewn rhoi sylw i dlodi ac iechyd y cyhoedd.
- Creu a chyfleu enw da Cymru fel Cenedl Fwyd yn fyd-eang drwy dynnu sylw at ein sector drwy Blas Cymru, datblygu a gweithredu ein gwerthoedd brand cynaliadwy, mabwysiadu safonau cynhyrchu ac achredu uchel, a dathlu llwyddiant busnesau.

Mae'r weledigaeth a'r genhadaeth yn cyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru a nodir yn Ffyniant i Bawb – y Strategaeth Genedlaethol[5] a Symud Cymru Ymlaen[6] a bydd y rhain wrth galon ein gwaith gyda busnesau bwyd a diod i bawb.


## Ein taith hyd yma

Rydym wedi cymryd camau breision ymlaen ers dechrau *Tuag at Dwf Cynaliadwy* yn 2014. Mae **Ffigur 1** yn crynhoi'r[7] cynnydd: mae gwerthiant y sector wedi cynyddu o ran eu gwerth; mae allforion yn tyfu'n gyflym, ac mae'r cynnyrch a'r marchnadoedd yn amrywiol[8]; mae busnesau'n amrywiol ac wedi'u lleoli ar draws holl ranbarthau Cymru; mae cynnyrch yn ennill mwy o wobrau ac mae defnyddwyr yn meddwl bod ein cynnyrch yn wych o ran eu hansawdd a'u blas[9].

Mae ein llwyddiant wedi bod yn seiliedig ar waith partneriaeth cryf sy'n cael ei sbarduno gan gydweithrediad rhwng y diwydiant, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd. Rydym wedi creu rhwydweithiau sy'n atgyfnerthu eu hunain, y prif rai yw'r clystyrau busnes[10] sy'n rhannu'r un buddiannau lle gall busnesau a allai fod yn cystadlu â'i gilydd ddod o hyd i gyfleoedd lle mae'r naill a'r llall ar eu hennill.

4 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/bwrdd-diwydiant-bwyd-diod-cymru)
5 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf)
6 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/160920-taking-wales-forward-cy_0.pdf)
7 Cafodd y gwerthusiad economaidd diweddaraf ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019 ac mae ar gael yma (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/amdanom-ni/bwyd-diod-cymru-mewn-niferoedd).
8 (foodinnovation.wales/directory?lang=cy//)
9 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/amdanom-ni/bwyd-diod-o-gymru-mewn-niferoedd-gwerth-cymreictod)
10 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/tyfu-eich-busnes/clystyrau)

Ffigur 1: cyflwr y sector bwyd a diod a'r gadwyn gyflenwi ehangach



Rydym wedi helpu, arwain ac ysgogi'r sector drwy ddod ag arbenigedd technegol, ymchwil cymwysedig a chefnogaeth ynghyd, gan ddefnyddio ein canolfannau technoleg bwyd a diod drwy Arloesi Bwyd Cymru[11]. Rydym wedi darparu dealltwriaeth, gwybodaeth ymarferol arbennig a help llaw er mwyn meithrin llwyddiant.

Rydym wedi chwilio am gyfleoedd i gysylltu meysydd cysylltiedig: twristiaeth a lletygarwch, ffermio a physgodfeydd, adwerthu a chyfanwerthu.

Rydym wedi ymestyn ein cyrhaeddiad a'n proffil rhyngwladol drwy sioeau masnach a rhwydweithiau busnes.

### Heriau Brexit

Mae Brexit yn debyg o amharu arnom yn aruthrol, ac nid ydym yn gwybod pryd bydd yn digwydd, sut beth fydd Brexit, neu hyd yn oed a fydd yn digwydd o gwbl. Mae rhai prif bwyntiau'n tynnu sylw at y gwirioneddau anodd a'r effeithiau posibl:

- Mae ein sector bwyd a diod wedi'i integreiddio'n agos i gadwyni cyflenwi'r DU a rhai rhyngwladol ac nid oes modd ei ynysu oddi wrth newidiadau macro i'r amgylchedd masnachu.
- Mae tua chwarter llafurlu'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yn ddinasyddion UE nad ydynt yn dod o'r DU.
- Yn ôl gwerth, mae 73% o allforion bwyd a diod Cymru yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd.
- Gallai cytundebau masnachu gyda'r UE a gwledydd eraill fygwth neu newid deinameg mewnforio-allforio, cyflwyno costau tariff a heb dariff gwahanol, ac effeithio ar safonau defnyddwyr.

Bydd unrhyw beth ar wahân i fynediad parhaus at y Farchnad Sengl ar y telerau presennol gyda llafur yn llifo'n rhydd, yn peri heriau enfawr.

Mae ein sylfaen busnes sef microfusnesau neu fusnesau bach a chanolig gan fwyaf yn gwaethygu'r sialens oherwydd fel rheol nid oes gan fusnesau llai gymaint o gapasiti i ymateb wrth gymharu â chwmnïau rhyngwladol sydd â digonedd o adnoddau.

Ar gyfer pob senario Brexit, mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar yr un heriau sylweddol a dwfn sy'n wynebu ein sector. Mae Brexit yn golygu ei bod yn rhaid i ni hoelio ein ffocws a'n hymdrechion ar yr hanfodion sy'n gwneud y sector yn un llwyddiannus. Rhaid i ni ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant, boed hynny drwy fuddsoddiad cyfalaf, arferion busnes gwell a datblygu cynnyrch, neu drwy arweinyddiaeth busnes a sgiliau gwell. Gallwn a rhaid i ni ychwanegu rhagor o werth at ein cynnyrch cynradd a chryfhau ein llwybrau i'r farchnad yn y DU ac yn rhyngwladol. Dylem amrywio ein marchnadoedd a'n hallforion. Dylem ymestyn hyd a lled y rhwydweithiau a'r clystyrau i gryfhau gwytnwch a chyrhaeddiad ein sector. Rhaid i ni feithrin ein henw da a gwerthu'r hyn sy'n unigryw amdanom. Rhaid i ni weithredu'n gyflym ac yn gadarn er mwyn i weithgynhyrchu ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy a chyfrannu'n eang at lesiant Cymru.


### Sut mae ymgysylltu â'r sector bwyd a diod wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad hwn

Er mwyn paratoi'r ymgynghoriad hwn rydym wedi gofyn am safbwyntiau gan randdeiliaid a busnesau ers haf 2018. Mae sgyrsiau a'n gwaith dadansoddi ein hunain wedi tynnu sylw at nifer o faterion, anghenion a chamau gweithredu sy'n cael eu crynhoi yn **Ffigur 2** mewn perthynas â'r saith nod llesiant sydd wrth galon deddfwriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[12], sy'n arwain ac yn fframio egni a diben Llywodraeth Cymru. Mae **Ffigur 2** yn symleiddio realiti gan fod nifer o faterion yn berthnasol i fwy nag un nod llesiant,

11 (**foodinnovation.wales/arloesi-bwyd-cymru/**)
12 (**futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/**)

mae materion yn plethu â'i gilydd, ac mae bywyd go iawn yn fwy manwl a chymhleth. Fodd bynnag, mae **Ffigur 2** yn dangos sut mae'r sector bwyd a diod yn cyffwrdd â gwead cymdeithas, ac yn rhan ohoni, a'r heriau mawr rydym yn eu hwynebu, ac mae'n rhaid i'w ddatblygiad ystyried hyn. Rydym wedi grwpio'r materion yn ôl tair rhan ein cenhadaeth a bydd yn rhaid i'r gwaith o'u cyflawni blethu â'i gilydd er mwyn llwyddo.

Ffigur 2: crynodeb o'r materion sy'n wynebu'r sector bwyd a diod a sut maent yn ymwneud â'r nodau llesiant a thair elfen ein cenhadaeth



Mae cefnogaeth gref ar gyfer cynllun strategol newydd i barhau â'n gwaith hyd yma. Mae ar fusnesau a rhanddeiliaid eisiau cyfeiriad parhaus ac mae arnynt eisiau cefnogaeth i ganolbwyntio a hybu ein hymdrech, ein hegni a'n hadnoddau. Mae'r rhan fwyaf yn credu bod *Tuag at Dwf Cynaliadwy* wedi bod yn llwyddiannus ac y dylem barhau i'w ddilyn. Yn eu barn nhw, mae'n gwestiwn o adeiladu ar yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni, mynd ymhellach yn gyflymach a gwneud yn fawr o'n llwyddiannau yn hytrach na gofyn am newid cyfeiriad mawr.

## Ein prif dargedau a chamau gweithredu

Yn dilyn mewnbwn gan ein rhanddeiliaid ac yn dilyn ein profiad ein hunain, rydym wedi dod i'r casgliad y dylem barhau ar hyd y llwybr a ddechreuwyd gan *Tuag at Dwf Cynaliadwy* ond gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar yr hyn sy'n gweithio a gosod nodau, camau gweithredu a thargedau allweddol ar gyfer tair rhan ein cenhadaeth.

Er mwyn symleiddio'r cymhlethdod hwn, byddwn yn blaenoriaethu pedwar prif ganolbwynt i weithredu a byddwn yn gosod pum prif darged. Mae'r rhain yn cael eu crynhoi isod ac yn cael eu dangos yn **Ffigur 3**:

- **Canolbwynt gweithredu – Tyfu maint y sector drwyddo draw.** Mae arnom eisiau i ragor o fusnesau gychwyn ac i ragor oroesi'n hirach. Mae arnom eisiau i ficrofusnesau ddod yn fusnesau bach, ein busnesau bach i ddod yn fusnesau canolig ac i ragor fod yn fusnesau mawr. Mae arnom eisiau i faint y sector drwyddo draw, ac amrywiaeth ei farchnadoedd yn y DU a'i farchnadoedd allforio dyfu. Mae arnom eisiau denu mwy o fuddsoddi uniongyrchol o dramor. Rhaid i ni ychwanegu rhagor o werth drwy'r gadwyn gyflenwi a cheisio effeithiau lluosydd.

  Targed 1: Bydd gwerth trosiant y Sector Bwyd a Diod yn tyfu bob blwyddyn i gyd-fynd â'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn ogystal â 2% yn ychwanegol.

- **Canolbwynt gweithredu – Gwella cynhyrchiant y sector.** Mae gwella cynhyrchiant yn allweddol i ffyniant a llwyddiant tymor hir. Nid yw ein perfformiad yn ddigon da. Rhaid i ni ganolbwyntio a buddsoddi mewn sgiliau a phobl, asedau cyfalaf, arferion busnes gwell, arweinyddiaeth fusnes well a chynllunio busnes gwell, a defnyddio arloesedd a thystiolaeth ymchwil.

  Targed 2: bydd gwerth ychwanegol gros bob awr o waith yn y sector bwyd yn tyfu bob blwyddyn.

- **Canolbwynt gweithredu – mae ein cymorth i fusnesau o fudd i'n pobl a'n cymdeithas, yn ogystal â'r busnesau unigol.** Byddwn yn ceisio creu partneriaeth gyda busnesau lle bydd ein cefnogaeth yn eu helpu ac yn ei dro bydd y busnes yn ffynnu ac yn gweithredu mewn ffyrdd sydd o fudd i'w weithlu, i'r gymuned ac i Gymru drwyddi draw.

  Targed 3: cynyddu nifer y busnesau yn y sector bwyd a diod sydd wedi ymrwymo i gamau gweithredu a fydd o fantais i bobl Cymru (ymhelaethir ar y targed cymhleth hwn yn **Ffigur 3** a chaiff ei egluro yn **Atodiad 1**).


- **Canolbwynt gweithredu – Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd.** Byddwn yn canolbwyntio ar fyw ac ar farchnata gwerthoedd brand cynaliadwy, gan ddathlu ein llwyddiannau, tyfu ein hallforion a'n marchnadoedd i gefnogi twf ac er mwyn cyfleu ein proffil rhyngwladol. Mae safonau cynhyrchu uchel a datblygu cynnyrch yn rhan hanfodol o'n delwedd a hefyd yn cefnogi cynhyrchiant a gwelliannau i raddfa'r sector.

  Targed 4: 300 o fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod i fod ag achrediad priodol ar gyfer eu dibenion busnes erbyn 2026.

  Targed 5: Bydd gan 95% o fusnesau yn y sector bwyd a diod sgôr hylendid bwyd o 4 neu 5 erbyn 2026.

Ffigur 3: yn dangos sut mae'r weledigaeth, y genhadaeth a'r targedau'n berthnasol i'w gilydd. Rydym yn egluro'r targedau ymhellach yn Atodiad 1

## Gweledigaeth, Cenhadaeth, Camau Gweithredu a Thargedau



## Cyflawni'r cynigion

Mae elfennau ein cenhadaeth a'n prif nodau a thargedau yn plethu â'i gilydd a byddwn yn defnyddio dull cyfannol o ddatblygu'r sector bwyd a diod mewn ffordd gytbwys.

Bydd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd yn hwyluswyr ac yn gatalyddion yn hyn o beth. Caiff y Bwrdd ei benodi'n gyhoeddus, ac mae gan yr aelodau amrywiaeth eang o wybodaeth a dealltwriaeth. Bydd y Bwrdd yn llysgennad ar ran y sector, ac i'r sector. Bydd yn hyrwyddo'r sector yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Bydd yn chwilio am gysylltiadau strategol a bydd yn hwyluso diddordeb a buddsoddiad yn ein busnesau a'n cynnyrch. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth gweithredol i'r Bwrdd ac adnoddau i gefnogi'r sector i dyfu ac i ffynnu. Fel partneriaid, byddwn yn craffu ar gynnydd a sut mae'r cynllun strategol yn esblygu er mwyn iddo aros yn berthnasol a gyda ffocws. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweinyddiaethau eraill yn y DU lle bydd newid neu ddulliau cyffredin yn angenrheidiol neu'n fuddiol.

Pan fyddwn yn helpu busnesau byddwn yn gwneud hynny'n unol ag egwyddorion Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi[13] bod cefnogaeth yn ddwyochrog o ran bod busnesau a phartneriaid yn helpu llesiant ein cenedl. Bydd cymorth i fusnesau, ym mha bynnag ffordd, yn dibynnu ar hynny. Bydd yr hyn a ddisgwyliwn gan fusnesau, a gofynion penodol unrhyw drefniant cymorth, yn dibynnu ar amgylchiadau'r cymorth sydd ar gael; graddfa'r cymorth, a gafwyd cymorth yn y gorffennol, maint a natur y busnes ac yn ystod pa gam datblygu effeithiau lluosydd posibl y mae, a natur y cymorth y gofynnwyd amdano neu a gynigiwyd. Bydd hyn yn berthnasol, p'un ai a oes cymorth uniongyrchol ar gael gan Lywodraeth Cymru neu gymorth drwy un o'n partneriaid dan gontract. Rydym yn cydnabod ac yn parchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau'n dymuno chwarae eu rhan ac ymrwymo i safonau a gweithgareddau nod yw y byddant yn cael eu datblygu gyda sy'n gwella llesiant Cymru. Byddwn yn canolbwyntio ar dwf tymor hir a chynaliadwy nid byrdymhoriaeth.

Rydym yn cynnig adeiladu ar lwyddiant y model cyflawni a ddatblygwyd o dan *Tuag at Dwf Cynaliadwy* sy'n cyfuno cymorth uniongyrchol Llywodraeth Cymru, cymorth i fusnesau, cyngor technegol a throsglwyddo gwybodaeth drwy amryw o bartneriaid dan gontract.

Wrth i ni symud tuag at y cynllun strategol newydd, a drwy gydol oes y cynllun hwnnw, byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredol a phrosesau ar gyfer cyflawni. Efallai y byddwn yn cyhoeddi rhai o'r rhain pan fyddai hynny o fudd i roi gwybodaeth i bobl eraill.

Rydym yn cynnig canolbwyntio ar y cyfnod 2020-2026. Rydym yn ffafrio amserlen ganolig oherwydd mae hyn yn ddigon hir i ni drefnu a chymryd camau gweithredu sy'n cael effaith berthnasol ond nid yw'n ddigon hir i gael ei ystyried yn ddiddiwedd ac amherthnasol i heddiw.

## Y gadwyn gyflenwi ehangach

Mae bwyd a diod yn sector gweithgynhyrchu mewn cadwyn gyflenwi sy'n dechrau gydag amaethyddiaeth a physgodfeydd, ac sy'n dod i ben â'r sectorau cyfanwerthu, manwerthu a gwasanaethau bwyd a lletygarwch. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r sectorau perthnasol eraill hyn.

Mae ein cynigion ar gyfer ffermio'n dod o dan Brexit a'n Tir[14]. Rydym wrthi'n datblygu polisi newydd ar gyfer pysgodfeydd – Brexit a'n Moroedd[15]. Mae ffermwyr a physgotwyr

13 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf)
14 (llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-07/brexit-a-tir-ymgynghoriad-dogfen-ymgynghori.pdf)
15 (llyw.cymru/polisiau-morol-physgodfeydd-ar-gyfer-cymru-ar-ol-brexit?_ga=2.252509001.1150384489.1561967591-695037539.1493884999)

yn gweithio mewn amgylchedd rheoleiddio cymhleth ac mae materion penodol yn berthnasol iddynt. Ni fyddai'n ymarferol mabwysiadu un cynllun strategol a datblygu ar gyfer y tri sector, ond ein chysylltiad cryf yn y dyfodol.

Mae manwerthu yn elfen bwysig arall o'n Heconomi Sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector hwn mewn partneriaeth â busnesau a Chonsortiwm Manwerthu Cymru. Rydym yn cynnig datblygu ein gwaith ymhellach i gysylltu gweithgynhyrchwyr bwyd a diod â manwerthwyr i ddatblygu cyfleoedd newydd yn y farchnad ac i gyfuno enillion sydd wedi'u gwneud yn barod.

Mae'r sector gwasanaeth bwyd a lletygarwch yn arwyddocaol ynddo'i hun. Rydym eisoes yn cefnogi busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod i gyflenwi'r sector hwn, gan gynnwys twristiaeth bwyd. Mae twristiaeth yn elfen bwysig o'n Heconomi Sylfaenol hefyd, ac mae'n un o'r nifer o ffyrdd rydym yn cyfleu ein proffil rhyngwladol. Byddwn yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud drwy gyfrwng y Cynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Bwyd[16] wrth i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda'r sector twristiaeth ac wrth i ni fwrw ymlaen â'n Strategaeth Ryngwladol.

## Adnoddau ariannol

Bydd Brexit yn arwain at newid o ran y modd y gallai sector bwyd a diod Cymru gael ei gyllido a faint o arian fydd ar gael. Yn hanesyddol, Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru[17], a gyllidir gan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, oedd ein prif ddull o gefnogi ein busnesau bwyd, a hynny drwy grantiau buddsoddi uniongyrchol neu wasanaethau cymorth mewn da, gan drosglwyddo gwybodaeth a chyngor neu gefnogi digwyddiadau. Mae'r hyn a fydd yn cymryd lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cael ei gynnig yn nogfen Ffermio Cynaliadwy a'n Tir Llywodraeth Cymru.

Mae'r setliad ariannol ar gyfer Cymru yn y dyfodol yn parhau'n ansicr. Er bod Llywodraeth y DU wedi addo cynnal lefelau'r cymorth ar gyfer ffermwyr hyd 2022 nid ydym wedi derbyn unrhyw sicrwydd gan Lywodraeth y DU o safbwynt beth fydd yn digwydd ar ôl hynny na sut y daw'r arian yn ôl i Gymru. Mae Gweinidogion Cymru'n glir yn eu meddyliau na ddylai ymadael â'r UE olygu gostyngiad yn yr arian sydd ar gael i Gymru.

Gan fod mesurau cyni ar waith o hyd gan Lywodraeth y DU mae'n rhaid i gyllideb Llywodraeth Cymru fodloni mwy a mwy o ofynion gydag adnoddau mwy prin. Gan fod y sefyllfa mor ansicr a chymhleth mae'n rhaid i ni gydnabod y gallai'r sefyllfa bresennol o ran cyllid a chefnogaeth newid a derbyn y bydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn dibynnu ar ganlyniadau trafodaethau ehangach ynghylch cyllid sydd y tu hwnt i gwmpas y ddogfen hon, ac yn wir Lywodraeth Cymru.

Yn wyneb yr hinsawdd heriol hon dylem ystyried gwmpas y camau yr ydym yn credu bod modd eu hehangu fel y gallant weithredu o fewn y cyllidebau sydd ar gael ac o dan wahanol sefyllfaoedd posibl a thebygol yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig sicrhau bod modd i'r holl gamau yr ydym yn eu cefnogi sicrhau gwerth da am arian er lles pobl Cymru. Er bod cynllunio yn wyneb ansicrwydd yn anodd iawn mae'n hollbwysig. Mae'n rhaid i'n cynlluniau fod yn rhai hyblyg a all ymateb i amgylchiadau ariannol newidiol.

16 (gov.wales/food-tourism-action-plan-2015-2020)
17 (ec.europa.eu/agriculture/sites/agriculture/files/rural-development-2014-2020/country-files/uk/factsheet-wales_en.pdf)

## Crynodeb

Rydym yn ymrwymo i ddarparu cymorth ac arweinyddiaeth gadarn i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod. Byddwn yn cyhoeddi'r diweddaraf am gynnydd yn barhaus yn ôl y pum targed a'r dangosyddion ehangach. Bydd ein cymorth yn dibynnu ar rywbeth am rywbeth, a hynny am fudd i Gymru – bydd pyrth i wahanol lefelau o gymorth yn dibynnu ar gyflawni ymrwymiadau penodol.

Rydym yn gofyn i fusnesau sy'n gweithio gyda ni i ymrwymo i'r un safonau a gwerthoedd uchel y maent hwythau hefyd yn eu rhannu â'r gadwyn gyflenwi gyfan. Bydd busnes yn arwain y ffordd i fusnesau eraill ac yn cynrychioli'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu, sy'n cael eu cyfleu yn ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

---

Cwestiwn 1 o 20

Sut ydych chi'n teimlo am ein gweledigaeth a'n cenhadaeth arfaethedig?

Cwestiwn 2 o 20

Os nad ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth a'r genhadaeth arfaethedig, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Cwestiwn 3 o 20

Unrhyw sylw arall?

---

# Pennod 2: Datblygu ein Busnesau

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, rydym yn bwriadu tyfu graddfa ein busnesau, eu gwerth a'u cynhyrchiant. Byddwn yn gwneud hyn drwy dargedu buddsoddiad, cymorth a chyngor meddal, hyrwyddo arloesi, ysgogi gweithgareddau cydweithredol drwy gadwyni cyflenwi a drwy greu llwybrau cadarn ac amrywiol i farchnadoedd yn y DU a marchnadoedd allforio.

Ein diddordeb pennaf yw gwella cynhyrchiant busnesau, cyfraddau goroesi a'r uchelgais i lwyddo. Byddwn yn ffafrio buddsoddi mewn busnesau o ansawdd sydd ag uchelgais i gyflawni ein gweledigaeth a'n gwerthoedd ar y cyd, a byddwn yn ffafrio rhoi cymorth i fusnesau o'r fath.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl dau darged.

- Targed 1: Bydd gwerth trosiant y Sector Bwyd a Diod yn tyfu bob blwyddyn i gyd-fynd â'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn ogystal â 2% yn ychwanegol.
- Targed 2: bydd gwerth ychwanegol gros bob awr o waith yn y sector bwyd a diod yn tyfu bob blwyddyn.

### Tyfu ein graddfa a'n gwerth

Mae gwerth ein sector wedi tyfu ers 2014. Mae arnom eisiau adeiladu ar hyn. Mae arnom eisiau cynyddu cyfradd sefydlu a goroesi busnesau bwyd a diod, helpu busnesau micro i ddod yn fusnesau bach a chanolig a busnesau bach a chanolig i ddod yn fusnesau mawr. Mae arnom eisiau denu mewnfuddsoddiad a chynyddu gwerth ein hallforion. Mae twf y sector yn dibynnu ar sawl ffactor sydd y tu hwnt i'n rheolaeth ni, felly byddwn yn mesur cynnydd yn ôl newidiadau i'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), sef y meincnod gorau ar gyfer perfformiad yn ein barn ni. Mae arnom eisiau gwneud yn well na chyfateb newidiadau CPI ac rydym wedi gosod Targed 1 uchelgeisiol er mwyn rhagori ar hyn.

Y DU yw ein prif farchnad ac ni fydd hyn yn newid, oherwydd maint y boblogaeth a pha mor agos yw hi yn ddaearyddol. Ond, mae arnom eisiau i'n marchnadoedd allforio dyfu hefyd, nid yn unig er mwyn cyfrannu at ein graddfa a'n gwerth, ond er mwyn cyflwyno Cymru i'r byd ac amrywio ein sylfaen cwsmeriaid.

Rydym yn credu bod cynlluniau busnes cadarn, buddsoddi mewn asedau cyfalaf a phobl ar bob lefel, effeithlonrwydd cynhyrchu a llwybrau clir i farchnadoedd yn hanfodol er mwyn llwyddo. Wrth gynnig cymorth i fusnesau, bydd arnom eisiau deall eu huchelgais i ddatblygu a sut byddant yn cyflawni eu nodau.

### Gwell cynhyrchiant

Mae gwella cynhyrchiant yn hanfodol er mwyn i fusnesau unigol lwyddo yn y tymor hir, ac mae hyn wrth wraidd ffyniant y sector yn ei gyfanrwydd a llesiant Cymru. Rydym yn credu mai enillion cynhyrchiant yw elfen bwysicaf datblygu ein busnesau ac rydym wedi gosod Targed 2 i adlewyrchu hyn.

Rydym yn credu bod buddsoddi mewn cyfalaf – cyfleusterau, awtomatiaeth, ymchwil a datblygu a phobl ar bob lefel, yn elfennau hanfodol. Wrth gynnig cymorth i fusnes, bydd arnom eisiau deall sut y bydd yn cyfrannu at wella cynhyrchiant ac ychwanegu gwerth ac effeithiau lluosydd yn y gadwyn gyflenwi.

### Datblygu ein rhwydweithiau a chadwyni cyflenwi cadarnach drwy glystyrau

Mae pob busnes yn y gadwyn gyflenwi yn elwa o gael cysylltiadau dibynadwy rhyngddynt. Rydym wedi canfod bod ein rhaglen glwstwr

wedi arwain at fanteision ymarferol – rhannu costau, mentrau ar y cyd, rhannu syniadau ac atebion. Mae clystyrau yn cryfhau gwytnwch ein sylfaen gweithgynhyrchu bwyd a diod rhag problem neu sioc drwy helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi cryf ac atgyfnerthu perthnasoedd ar y cyd. Mae clystyrau yn arwain at ymdeimlad o genhadaeth ac awydd cynyddol i lwyddo fel tîm yn y sector.

Byddwn yn ehangu menter y clwstwr, ac yn ceisio denu rhagor o fusnesau i gymryd rhan a chyfrannu mwy. Byddwn yn canolbwyntio ar greu cysylltiadau cryfach ac ychwanegu gwerth drwy gadwyni cyflenwi. Bydd gwneud hyn yn arwain at ragor o berthnasoedd cefnogol, cysylltiadau sy'n helpu ein busnesau a'n systemau bwyd i allu gwrthsefyll problemau, ychwanegu gwerth i'n cynnyrch a chreu 'edau aur' er mwyn cyfleu ein gwerthoedd brand cynaliadwy a'n pwyntiau gwerthu unigryw drwy'r gadwyn gyflenwi.

Byddwn yn cefnogi grwpiau clwstwr newydd pan fydd ymchwil i'r farchnad yn awgrymu y byddai hynny'n fuddiol. Byddwn yn rhoi'r gorau i gefnogi grwpiau os na fyddant yn bodloni ein gwerthoedd neu os na fyddant yn berthnasol mwyach. Byddwn yn datblygu ac yn cefnogi clystyrau ar thema neu sy'n seiliedig ar fusnesau sydd â lleoliad rhanbarthol cyffredin.

Mae aelodau clwstwr yn dod yn bartneriaid elit i ni a byddwn yn canolbwyntio ar roi cyngor a chymorth i'r rhain. Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth dechnegol ac am y farchnad ar gael, ac yn ymchwilio i lwybrau i'r farchnad i ganfod cyfleoedd a ffyrdd o oresgyn rhwystrau ar gyfer mynediad a thwf. Byddwn yn helpu i ddatrys problemau, yn helpu i ddatblygu cynnyrch newydd, yn hwyluso cydweithio rhwng busnesau, ac yn eu helpu i arloesi drwy wneud gwaith ymchwil gymhwysol. Byddwn yn hyrwyddo clystyrau i ddarpar brynwyr[18] cynnyrch o Gymru fel pyrth i'n rhwydwaith cynhyrchu. I'r gwrthwyneb, byddwn yn marchnata clystyrau fel darpar rwydweithiau prynwyr er mwyn i'n diwydiannau ffermio a physgota gyflenwi eu cynnyrch i'r sector gweithgynhyrchu. Byddwn yn annog ein clystyrau hefyd i gydweithio ar lefel ryngwladol ar fentrau fel rhaglen Bwa Iwerydd Ewrop i helpu busnesau i ddatblygu ymhellach.

18 Prynwyr manwerthu a chyfanwerthu, y sector gwasanaethu a lletygarwch, asiantwyr allforio a chyd-gyfnerthwyr a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gosod contractau caffael bwyd.

# Bwyd a Diod Cymru Rhwydwaith Clwstwr

# Food and Drink Wales Cluster Network

Mae Rhwydwaith Clwstwr Bwyd a Diod Cymru yn dod â chyflenwyr, y byd academaidd a'r llywodraeth ynghyd. Y prif amcan yw helpu busnesau i gyflymu twf mewn gwerthiant, elw a chyflogaeth.













## Ein 8 Prif Glwstwr

**Clwstwr Busnes Heriol**
Sefydlwyd: Mehefin 2016
30 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Diodydd**
Sefydlwyd: Gorffennaf 2017
70 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwb Allforio**
Sefydlwyd: Mai 2016
81 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Bwydydd Da**
Sefydlwyd: Gorffennaf 2015
100 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Mêl**
Sefydlwyd: Ebrill 2018
10 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Garddwriaeth**
Sefydlwyd: Ionawr 2018
240 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Bwyd Môr**
Sefydlwyd: Haf 2015
65 o gynhyrchwyr (yn fras)

**Clwstwr Maeth Cymru**
Sefydlwyd: Rhagfyr 2015
115 o gynhyrchwyr (yn fras)

## Arloesi Bwyd Cymru a Bwydydd y Dyfodol

Er mwyn cefnogi clystyrau a chadwyni cyflenwi cryfach, byddwn yn hyrwyddo Arloesi Bwyd Cymru[19], ein partneriaeth o ganolfannau technoleg bwyd, ac mae'n bosibl y bydd Bwydydd y Dyfodol[20] sy'n fenter o dan arweiniad Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, yn ategu hyn. Bydd Arloesi Bwyd Cymru a Bwydydd y Dyfodol yn gweithio'n uniongyrchol â busnesau, a drwy gynnig cyngor pwrpasol a mynediad at gyfleusterau datblygu a hybu busnesau, maent yn denu buddsoddwyr a busnesau bwyd a diod i sefydlu yng Nghymru.

## Buddsoddi yn ein gweithlu

Rydym yn wynebu argyfwng. Rhaid i ni ddenu 7,900 o weithwyr newydd i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod erbyn 2025[21]. Mae arnom angen pobl i weithio mewn rolau amrywiol o weithredwyr peiriannau i dechnegwyr bwyd sydd wedi graddio. Mae'r risg yn fwy fyth oherwydd mae tua chwarter ein gweithlu'n wladolion o'r UE nad ydynt yn dod o'r DU[22] a all fod yn llai tueddol o weithio yng Nghymru oherwydd Brexit, sy'n gwbl ddealladwy. Mae safbwynt Llywodraeth y DU o ran rhoi meini prawf mewnfudo ar waith drwy ddefnyddio trothwy cyflog crai yn risg fawr. Nid yw'n ystyried y gweithwyr medrus yn y diwydiant bwyd a diod a all fod yn cael llai o dâl. Rydym yn wynebu her ar fyrder i ddenu a chadw digon o bobl addas.

Mae cynyddu awtomatiaeth a'r defnydd o dechnoleg ddigidol ddiwydiannol, sy'n aml yn bwysig er mwyn gwella cynhyrchiant, yn rhan o'r ateb. Byddwn yn blaenoriaethu cymorth i fusnesau sy'n dymuno gwneud hyn. Mae awtomatiaeth fel rheol yn golygu bod swyddi'n dod yn fwy technegol, ond yn rhoi boddhad ac yn talu'n well, sy'n beth da i unigolion a chymunedau. Mae gofyn datblygu'r gweithlu drwy hyfforddi pobl ar gyfer awtomatiaeth hefyd. Rhaid i ni hefyd wynebu'r gwir annymunol y gall awtomatiaeth olygu llai o swyddi mewn busnesau unigol. Nid aros yn ein hunfan a dod yn llai cynhyrchiol ac yn anghystadleuol yw'r ffordd i ymateb i hyn. Y ffordd i ymateb i hyn yw drwy dyfu'r busnes a'r sector cyfan. Gyda'i gilydd, gall rhagor o fusnesau sy'n gryfach mewn clystyrau a chadwyni cyflenwi cadarn greu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth gyda lefelau sgiliau uwch.

Rhan arall o'r ateb yw denu mwy o bobl i'r sector. Ein her, yn gyffredinol, yw nad yw gweithgynhyrchu bwyd a diod yn cael ei weld fel llwybr gyrfa wych sy'n cynnig swyddi sy'n rhoi boddhad ac sy'n talu'n dda. Dim ond 15% o bobl ifanc fyddai'n ystyried gweithio yn y sector. Mae'n hanfodol bod y sector yn denu ac yn cadw gweithlu medrus. Rhaid i ni wella barn a dealltwriaeth pobl o'r cyfleoedd sydd ar gael, ac y gall y sector ddarparu gyrfaoedd gwych a swyddi sy'n rhoi boddhad. Rydym eisoes wedi dechrau gweithio ar fentrau i hwyluso mynediad i'r diwydiant ac i hyrwyddo'r broses o ddatblygu sgiliau. Byddwn yn adeiladu ar y rhain. Byddwn yn hyrwyddo Adduned Sgiliau Cymru[23] sy'n cael ei hyrwyddo gan y Bwrdd, gyda'n busnesau'n ymrwymo i fynd ati i addo eu cefnogaeth[24]. Byddwn yn hyrwyddo'r sector bwyd mewn gweithgareddau gyrfaoedd mwy cyffredinol fel Skills Cymru[25]. Er mwyn rhoi sylw i anghenion penodol busnesau, byddwn yn parhau gyda[26] Sgiliau Bwyd Cymru[27] sy'n darparu hyfforddiant sy'n cael ei anelu at weithgynhyrchu bwyd a diod.

Ledled Cymru, ceir tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol[28] sy'n dadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol i ganfod pa sgiliau sydd eu hangen ar y gweithlu.

19 (foodinnovation.wales/arloesi-bwyd-cymru/)
20 (llyw.cymru/ps73-miliwn-gan-yr-undeb-ewropeaidd-i-roi-hwb-i-sector-bwyd-cymru)
21 Ymchwil gan Brookdale Consulting ar ran Llywodraeth Cymru.
22 Ymchwil gan Brookdale Consulting ar ran Llywodraeth Cymru.
23 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/180209%20Skills%20Pledge%20Booklet%20A5%20WEL.pdf)
24 (www.foodskills.cymru/cy/hafan/)
25 (prospectsevents.co.uk/)
26 O leiaf tan fis Medi 2023, pan fydd y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd yn dod i ben.
27 (www.foodskills.cymru/)
28 (businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol)

# Datblygu ein Busnesau
# Glanbia Cheese

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales




**Y tro nesaf y byddwch chi'n cnoi pizza, sydd wedi'i brynu mewn tŷ bwyta, siop gludfwyd neu archfarchnad, mae'n debygol iawn y bydd y mozzarella ar ben y pizza wedi dod o Glanbia Cheese yn Llangefni, ar Ynys Môn, y safle cynhyrchu caws mozzarella mwyaf yn Ewrop.**

Mae Glanbia Cheese Ltd. yn fenter ar y cyd rhwng Leprino Foods yn Denver, Colorado, a Glanbia Plc yn Kilkenny, Iwerddon, ac mae'n cyflenwi dros 90,000 o dunelli o gaws i gwsmeriaid yn y sector bwyd a'r sector busnes i fusnes.

Mae'r Uwch Reolwr Adnoddau Dynol, Heather Broughton, yn credu'n gryf mewn hyfforddiant: "Mae'n hollbwysig bod gennym weithwyr medrus a gwybodus sy'n gallu addasu a newid er mwyn cwrdd â gofynion cwsmeriaid, deddfwriaeth bwyd newydd a'r busnes. Mae buddsoddi parhaus mewn hyfforddiant mewnol ac allanol i weithwyr yn eu galluogi i dyfu a datblygu i'w llawn botensial. Rydyn ni'n credu bod hyfforddiant yn helpu cymhelliant, ac yn dangos ein hawydd i ddarparu galwedigaeth gynaliadwy sy'n rhoi bodlonrwydd a llwybr gyrfaol hirdymor."

Mae Heather ei hun yn Is-gadeirydd Partneriaeth Sgiliau Diwydiant Llaeth Cymru, grŵp o gyflogwyr Llaeth Cymru ar y cyd â'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod ynghyd â chynrychiolwyr o gyrff ariannu Llywodraeth Cymru a Choleg Reaseheath. Yn ôl Heather: "Mi wnaethon ni ddatblygu'r hyfforddiant Lefel 2 Gweithrediadau Llaeth sydd wedi'i Gymeradwyo gan y Diwydiant (mae'r ail gohort newydd ddechrau) oherwydd ein bod yn sylweddoli bod gwybodaeth yn ein sector ar drai – roedden ni eisiau cael hyfforddiant penodol i ddiwallu union anghenion ein busnesau.

"Mae'r cydweithrediad â phroseswyr llaeth eraill yn yr ardal yn eithriadol ac mae'n gwella ein gallu i gynllunio rhaglen sy'n diwallu ein holl anghenion, tra mae cryfder o ran niferoedd yn ein galluogi i ddarparu hyfforddiant costeffeithiol sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru."

Mae cwrs Lefel 3 Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gweithrediadau Llaeth yn cael ei ddatblygu nawr, a bydd yn darparu llwybr gyrfaol parhaus i weithwyr. Yn ôl Heather: "Mae'r diwydiant bwyd yn gallu darparu llwybr gyrfaol gwych ar gyfer cynifer o swyddogaethau a disgyblaethau.  Mae'n hollbwysig ein bod yn dal i dyfu a darparu swyddi technegol o ansawdd da i'n cymunedau lleol."

Mae eu gwaith yn cyfrannu at y ddarpariaeth prentisiaethau ac addysg bellach. Byddwn yn cysylltu â'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod pawb yn deall anghenion y sector bwyd a diod. Rhaid i ni sicrhau bod y ddarpariaeth yn berthnasol ac yn datblygu i fodloni anghenion y sector. O gofio hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau adolygu'r fframwaith prentisiaethau ar gyfer bwyd a diod cyn bo hir.

Nid yw hyfforddiant sgiliau'n rhywbeth technegol yn unig. Byddwn hefyd yn canolbwyntio ar hyfforddiant ar gyfer sgiliau rheoli ac arwain, sy'n hanfodol er mwyn i fusnesau lwyddo. Bydd ein penderfyniadau ynghylch a ydym am gefnogi busnesau yn ystyried eu hymrwymiad a'u cynnydd o ran hyfforddi a datblygu eu gweithlu ar bob lefel.

### Buddsoddiad ariannol mewn busnesau

Byddwn yn buddsoddi mewn busnesau a'r rhanddeiliaid sy'n eu cefnogi. Byddwn yn buddsoddi yn ôl haeddiant yr achos busnes, gan gynnwys sut mae'n helpu llesiant Cymru.

Byddwn yn datblygu ein grantiau buddsoddi i gynnig cymorth ariannol hyblyg. Mae arnom eisiau helpu busnesau o bob maint ac annog busnesau i ddechrau a chefnogi eu twf. Mae ein prif grantiau, sef y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd[29] a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig[30] wedi buddsoddi mewn nifer o brosiectau cyfalaf newydd ac wedi bod yn boblogaidd, fel y mae'r gefnogaeth ar gyfer mewnfuddsoddi o Gronfeydd Rhanbarthol Ewrop. Fodd bynnag, oherwydd ein bod ni'n gweithio o fewn rheolau Ewrop, mae'n bosibl nad ydym wedi gwireddu ein potensial yn llawn. Byddwn yn ceisio rhesymoli a diweddaru'r hyn rydym yn ei gynnig pan ddaw'r rhaglenni hyn i ben er mwyn i ni gael cymorth grant wedi'i dargedu ac y mae modd ei addasu.

Rydym yn ystyried grantiau uniongyrchol fel cymorth buddsoddi lleiafrifol. Ein nod mwy yw helpu busnesau i gael gafael ar fathau eraill o gyllid fel cymorth gan fanciau, ecwiti a buddsoddiadau preifat. Bydd ein model gweithredu yn golygu bod Cyllid Busnes Cymru[31] ar flaen y gad fel porth i roi cyngor a chymorth i fusnesau, gyda Banc Datblygu Cymru[32] yn bartner buddsoddi pwysig. Bydd y Bwrdd yn chwarae rôl ragweithiol fel llysgennad a rhwydweithiwr ar gyfer y sector er mwyn helpu i ddenu buddsoddiad.

Rydym wedi denu llawer o fuddsoddiadau uniongyrchol o dramor o dan *Tuag at Dwf Cynaliadwy*. Byddwn yn parhau i fynd ati i weithio'n rhagweithiol gyda darpar fuddsoddwyr, gan ddefnyddio gwaith ymchwil, sioeau masnach a dulliau wedi'u targedu o reoli perthnasau i'w denu. Byddwn yn rhoi cyngor am farchnadoedd Cymru a'r DU ac yn canfod eiddo busnes, gyda chymorth ein rhwydwaith o swyddfeydd rhyngwladol. Bydd Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, sydd i ddod, yn hanfodol i hyn.

### Hybu allforion

Mae tyfu allforion yn rhan o'n cynllun i ddatblygu ein busnes. Ond, rydym yn eu gweld yn bennaf fel dull o hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd yn fyd-eang. Rydym yn trafod allforion ym Mhennod 4.

### Crynodeb

Rydym yn ymrwymo i gefnogi busnesau hyfyw ac uchelgeisiol, sy'n rhannu ein gwerthoedd. Byddwn yn buddsoddi'n uniongyrchol ynddynt, a byddwn yn denu ac yn hwyluso buddsoddiadau gan eraill. Byddwn yn canolbwyntio ar dyfu ein

29 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/y-cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-bwyd-canllawiau.pdf)
30 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-gwledig-bwyd-canllawiau.pdf)
31 (businesswales.gov.wales/businessfinance/cy/mathau-o-gyllid-sut-i-wneud-cais/banc-datblygu-cymru)
32 (businesswales.gov.wales/businessfinance/cy/mathau-o-gyllid-sut-i-wneud-cais/banc-datblygu-cymru)

graddfa ac ar wella cynhyrchiant. Byddwn yn ysgogi ac yn tyfu rhwydweithiau a chlystyrau drwy ein cadwyni cyflenwi, gan gysylltu cynhyrchu cynradd â gweithgynhyrchu, yn ogystal â manwerthu/cyfanwerthu a'r sector gwasanaethu, ac yn ychwanegu gwerth a gwella ein cynnig ar gyfer cynnyrch ar y cyd. Byddwn yn darparu cymorth cynhwysfawr ar gyfer materion technegol, datblygu cynnyrch, rhoi gwaith ymchwil ar waith ac arloesi. Byddwn yn ymchwilio i farchnadoedd newydd a chyffrous i ganfod y cyfleoedd gorau ac i greu llwybrau cadarn tuag atynt. Byddwn yn helpu busnesau i fuddsoddi yn eu gweithlu.

Yn gyfnewid am hyn, rydym yn disgwyl i'r busnesau rydym yn gweithio gyda nhw fod yn uchelgeisiol, dilyn dull strwythuredig a thymor hir er mwyn datblygu, ymrwymo i wella eu cynhyrchiant a mabwysiadu'r arferion busnes gorau sy'n cael eu cydnabod, rhannu a chyfrannu at ein nodau llesiant, gweithio ar y cyd gyda'u cydweithwyr a'u cadwyni cyflenwi er mwyn datblygu rhwydweithiau busnes cryf sydd â'u gwreiddiau yn ein cymunedau.

---

Cwestiwn 4 o 20

Sut ydych chi'n teimlo am ein cynigion?

Cwestiwn 5 o 20

Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth a'r ymrwymiad rydym yn gofyn i fusnesau ei wneud?

Cytuno'n llwyr
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n llwyr

Cwestiwn 6 o 20

Os nad ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi neu'r ymrwymiadau, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Cwestiwn 7 o 20

Oes angen unrhyw weithgaredd ychwanegol nad ydym wedi'i nodi?

Cwestiwn 8 o 20

Allwch chi gyfrannu tuag at gyflawni ein cynigion?

---

# Datblygu ein Busnesau
# Daffodil Foods

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales




**Mae Daffodil wedi bod yn weithgar yn y sector llaeth lleol yng ngogledd Cymru er 2011, ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae wedi llwyddo i ennill nifer o wobrau, gwneud llawer o ffrindiau a chael cytundebau busnes da, gan gynnwys cyflenwi iogwrt arbennig blas mefus a fanila i ysbytai Cymru am y pum mlynedd diwethaf.**

Y dasg ddiweddaraf yw chwilio am uned gynhyrchu i wneud iogwrt a hufen blasus Daffodil o laeth Cymreig, ac mae Llywodraeth Cymru yn profi ei gwerth drwy gefnogi cynlluniau twf uchelgeisiol y cwmni. Roedd gan Lynne King 20 mlynedd o brofiad yn y diwydiant llaeth pan sefydlodd gwmni Daffodil. “Mae ystod y cymorth sy’n cael ei gynnig yn wych,” meddai Lynne. “Rydyn ni’n gweld budd grant y Gystadleuaeth Arloesi, rydyn ni wedi ymuno â’r Clwstwr Bwydydd Da, y Clwb Allforio a’r Academi Sgiliau Masnachol er mwyn ehangu ein gwybodaeth, ein sgiliau a’n rhwydweithiau busnes. Mae’r gefnogaeth wedi bod yn anhygoel.”

Roedd Lynne yn awyddus i helpu pobl ifanc yn y diwydiant, felly cynigiodd leoliad i fyfyrwraig leol a oedd yn astudio Gwyddoniaeth Bwyd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a chafodd y fyfyrwraig argraff fawr arni. Â chymorth y tîm cartref, mae Lynne bellach yn edrych ymlaen i fynd â Hufen Tolch Cymru i farchnadoedd rhyngwladol, ac mae’n edrych ymlaen yn eiddgar at BlasCymru ym mis Mawrth eleni, gan fod y digwyddiad cwrdd â’r prynwr blaenorol wedi arwain at gontract gyda siopau Lidl ar hyd a lled y DU, ar ôl blynyddoedd o guro’n ofer ar ddrws y cwmni mawr.

Yn ôl Lynne: “Mae cymorth Llywodraeth Cymru yn cael ei deilwra’n ofalus ar gyfer yr hyn rydyn ni wir ei angen fel cynhyrchwyr. Â brand Cymreig cryf, sy’n seiliedig ar darddle, rwy’n sicr bod pethau’n argoeli’n dda i Daffodil, a’r sector yn gyffredinol, yn y dyfodol.”

# Pennod 3: Bod o Fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas

Ein cenhadaeth yw bod y sector bwyd a diod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas drwy gynnig gwaith teg, defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy a bod busnesau'n chwarae rhan yn y broses o roi sylw i dlodi ac iechyd y cyhoedd.

Mae'r rhan hon o'n cenhadaeth yn amrywiol a chymhleth. Nid yw'n hawdd rhannu'r rhan hon yn dargedau syml ond rydym yn credu bod targed, dim ots pa mor amherffaith, yn werthfawr i ddangos ein bwriad a darparu rhywfaint o gyfeiriad. Er hwylustod, rydym yn cynnig un targed sy'n cynnwys llawer o ddimensiynau. Rydym yn edrych ar fanylion y targed ymhellach a hoffem gael eich safbwyntiau.

Targed 3: cynyddu nifer y busnesau yn y sector bwyd a diod sydd wedi ymrwymo i weithredu er budd trigolion Cymru yn eang drwy:

- W fod wedi llofnodi'r Adduned Sgiliau erbyn 2026.
- X fod wedi llofnodi Cytundeb Courtauld erbyn 2025.
- Y % o fusnesau yn y sector yn talu'r Cyflog Byw Cymreig o leiaf i bob un o'u gweithwyr erbyn 2026.
- Z busnesau'n cyfrannu at y Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol.

(Mae W, X, Y a Z yn cynrychioli rhifau sydd heb eu pennu eto.)

### Gwaith teg

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ac mae'n disgwyl i fusnesau chwarae rhan gref yn y gwaith hwnnw yn gyfnewid am ein cefnogaeth. Byddwn yn cefnogi busnesau ar yr amod eu bod yn dangos eu bod yn Gyflogwyr Gwaith Teg, yn ôl diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg yn ei adroddiad diweddar Gwaith Teg Cymru[33]. Mae'r Bwrdd yn ystyried gwaith teg yn ymarfer busnes synhwyrol yn unol â llwyddiant tymor hir busnes.

Ystyr Gwaith Teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol. Rydym yn deall bod sicrhau Gwaith Teg yn broses barhaus ac y bydd busnesau'n dechrau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Ond, rydym yn disgwyl gweld busnesau'n mynd ati'n weithgar i geisio sicrhau eu deilliannau, sef: gwobrwyo teg; llais y cyflogai a chydgynrychiolaeth; sicrwydd a hyblygrwydd; cyfle i gael mynediad at waith, i dyfu ac i gamu ymlaen; amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol; parchu a gwireddu hawliau cyfreithiol. Mae cydraddoldeb a mynd ati i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan hanfodol o'r holl ddeilliannau hyn ac nid ydym yn gweld unrhyw gyfaddawd rhyngddynt.

Ar hyn o bryd mae 65% o weithwyr yn y sector yn cael y Cyflog Byw Cymreig[34]. o leiaf. Bydd hi'n ofynnol i'r busnesau rydym yn eu cefnogi ymrwymo i weithio tuag at dalu'r Cyflog Byw Cymreig erbyn 2026, yn ogystal ag annog eu cadwyn gyflenwi i wneud yr un fath.

Mae cyfle i ddefnyddio caffael cyhoeddus mewn ffordd ddoethach i gefnogi mentrau eraill fel yr ymgyrch Swyddi Gwell yn Nes at Adref[35].

33 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf)
34 Mae'r Cyflog Byw Cymreig yn un fath â'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
35 (llyw.cymru/arwyddion-positif-ir-cynllun-swyddi-gwell)

Mae'r rhain wedi defnyddio deddfwriaeth caffael i gadw contractau addas fel bod modd i ffatrïoedd presennol a newydd sy'n cael eu cefnogi ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl fwyaf difreintiedig mewn ardal leol. Nid oes contractau'n ymwneud â bwyd wedi cael eu sefydlu eto, ond rydym yn gweld cyfle i edrych ar hyn a'i ddatblygu.

Hefyd, rydym yn disgwyl y bydd busnesau sy'n cael cefnogaeth gennym yn symud tuag at fabwysiadu cod ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi[36] Llywodraeth Cymru ac yn annog busnesau eraill yn eu cadwyn gyflenwi i'w fabwysiadu hefyd. Bwriad y Cod yw sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â geiriad a naws cyfreithiau'r DU, cyfreithiau'r UE a chyfreithiau rhyngwladol. Cafodd y Cod ei lunio ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o gaffael cyhoeddus ac rydym yn gwerthfawrogi y bydd angen dull hyblyg wrth ei fabwysiadu, gan ddibynnu ar faint a cham datblygiad busnes.

## Gyrfaoedd a Sgiliau

Mae denu pobl i'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod a pharhau i'w hyfforddi yn hollbwysig i gynhyrchiant a llwyddiant y sector. Mae swyddi da o fudd i unigolion, eu teuluoedd, ac i'n cymunedau a'r gymdeithas. Rydym wedi amlinellu'r camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd ym Mhennod 2. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ddatblygu dulliau gweithredu rydym wedi'u treialu yn y Cymoedd ac sydd nawr yn cael eu cyflwyno yng ngogledd Cymru – sef, busnesau yn llofnodi'r Adduned Sgiliau ac yn ymrwymo i ailddysgu sgiliau i bobl ddi-waith er mwyn iddynt gael gwaith yn syth yn y sector bwyd a diod yn hytrach na defnyddio asiantaeth darparu gweithwyr.

## Defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy

Mae cyflwr adnoddau naturiol y ddaear yn gwaethygu'n gyflym ac mae hynny'n cael llawer o gyhoeddusrwydd. Mae'r sector bwyd a diod yn cael effaith ar adnoddau naturiol mewn sawl ffordd. Er enghraifft, ôl troed carbon y broses weithgynhyrchu, deunyddiau pecynnu, cael gafael ar gynhwysion, defnyddio ynni a dŵr, logisteg a gwastraff.

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy a, thrwy gyfraith, i leihau ôl-troed carbon Cymru 80% erbyn 2050. Bydd yn cael ei gyflawni drwy gyfres o gyllidebau carbon. Byddwn yn cefnogi busnesau ar yr amod eu bod yn dod yn fwyfwy effeithlon o ran carbon ac yn helpu i sicrhau Cymru Carbon Isel[37].

Byddwn yn ffafrio cefnogi cwmnïau sy'n ymrwymo i ddefnyddio olew palmwydd sydd wedi'i gael yn foesegol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru[38].

Mae Cymru yn arwain y byd o ran rheoli ein gwastraff. Yn ystod yr 20 mlynedd ers datganoli, rydym wedi dod y wlad orau yn y DU, yr orau ond un yn Ewrop a'r drydedd wlad orau yn y byd am ailgylchu. Yn ddiweddarach eleni byddwn yn cyhoeddi ein Strategaeth Effeithlonrwydd Adnoddau a'n Trwydded Economi Gylchol ar gyfer ymgynghoriad. Bydd hyn yn dangos y camau nesaf a byddwn yn gweithio tuag at ddod yn "genedl ddiwastraff".

Mae'r ffordd y mae gwastraff bwyd yn cael ei reoli yn ffactor allweddol o ran lleihau nwyon tŷ gwydr. Mae ein diwydiant bwyd a diod yn rhan fawr o'n huchelgeisiau ac mae busnesau ledled Cymru wedi bod yn cymryd camau pwysig tuag at newid ymddygiad i leihau eu hôl-troed carbon, gan ddod o hyd i atebion eraill ar gyfer bwyd

36 (prp.gov.wales/docs/prp/toolkit/29358CodeofPracticeEthicalEmploymentinsupplychainsWelshWEB.pdf)
37 (gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/190321-prosperity-for-all-a-low-carbon-wales-cy.pdf)
38 (llyw.cymru/llywodraeth-cymru-am-roir-diwedd-i-ddefnydd-olew-palmwydd-syn-ddrwg-ir-amgylchedd?_ga=2.170577056.1863896357.1562058037-63830782.1559115529)

dros ben a'i atal rhag mynd i gladdfeydd sbwriel, yn ogystal â gweithio gyda'n partneriaid i gael cyngor a chefnogaeth ar sut mae defnyddio eu hadnoddau yn fwy effeithlon.

Drwy gymryd camau i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon, gall busnesau arbed arian yn ogystal â sicrhau cyfleoedd economaidd newydd. Byddwn yn disgwyl i'r busnesau rydym yn eu cefnogi leihau gwastraff mewn meysydd fel y broses weithgynhyrchu a chyfrannu at leihau gwastraff ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi hyd at y defnyddwyr yn y pen draw, yn unol â'n diwygiad arfaethedig i'r strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff[39]. Byddwn yn ymgynghori ar darged i leihau gwastraff bwyd yng Nghymru – maes sy'n cynnwys ffocws a chyfleoedd. Rydym yn annog busnesau bwyd yng Nghymru i ddangos eu hymrwymiad i fynd i'r afael â gwastraff bwyd drwy gysylltu â Courtauld 2025[40] cytundeb gwirfoddol uchelgeisiol i sicrhau bod y ffordd rydym yn cynhyrchu a defnyddio bwyd a diod yn fwy cynaliadwy.

Hefyd, mae datblygiadau cysylltiedig pwysig ar y gweill yng Nghymru, y DU ac Ewrop a fydd yn cynnwys ymyriadau i leihau deunydd pecynnu a gwastraff arall gan gynnwys gofyniad penodol yng Nghymru i fusnesau wahanu a rheoli'r casgliad o'u ffrydiau gwastraff eu hunain. Byddwn yn darparu cyngor a chymorth technegol drwy waith partneriaeth rhwng Arloesi Bwyd Cymru a WRAP Cymru[41].

## Cynnyrch iachach

Mae Pwysau Iach: Cynllun Cymru Iach[42] yn cynnig y dull gweithredu y dylai Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio er mwyn helpu pobl i gael pwysau iach, gan gynnwys gwella eu deiet. Roedd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys camau gweithredu penodol a oedd yn berthnasol i'r diwydiant bwyd nad ydym yn eu hailadrodd yma.

Rydym yn cydnabod bod yr hyn y mae pobl yn ei fwyta a'i yfed yn gysylltiedig yn ei hanfod â'u hiechyd. Byddwn yn cefnogi busnesau bwyd a diod i ail-fformiwleiddio eu cynnyrch a datblygu fformiwlâu iachach pan fydd hynny'n bosibl. Byddwn yn blaenoriaethu cefnogaeth ar gyfer busnesau â chynigion ymarferol ar gyfer creu cynnyrch newydd neu gynnyrch sy'n bodoli eisoes.

## Lleihau tlodi

Mae'r sector bwyd a diod a'i gadwyn gyflenwi ehangach yn ffynonellau pwysig o gyflogaeth a swyddi ac maent yn hollbwysig i ffyniant pobl ac i leddfu tlodi. Bydd busnesau sy'n darparu Gwaith Teg yn gonglfaen i rôl y sector o sicrhau bod Cymru yn wlad ffyniannus a theg. Mae ôl troed y sector ledled Cymru yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ddarparu gwaith mewn cymunedau lled nad oes llawer o ddewisiadau cyflogaeth eraill. Mae ein cefnogaeth i greu rhwydweithiau a chlystyrau busnes cryf, i ychwanegu gwerthoedd ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi, ac i ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant busnesau fel hyfforddi a gwella sgiliau, yn gynhwysion sy'n helpu busnesau i dyfu a llwyddo. Bydd hyn yn helpu ein cymunedau i ffynnu hefyd.

Hefyd, rydym yn gwybod bod tlodi yn gysylltiedig â deiet gwael a mwy o berygl o fod dros bwysau neu'n ordew. Drwy ddatblygu arferion bwyta'n iach yn ein blynyddoedd cynnar, gellir defnyddio'r arferion hynny'n nes ymlaen yn ein plentyndod a phan fyddwn ni'n oedolion. Mae'r dewisiadau y mae plant yn eu gwneud o ran ffordd o fyw yn cael eu dylanwadu gan eu teuluoedd a'r gymdeithas ehangach, ond gall ysgolion chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o hybu arferion

39 (gweddill.gov.wales/docs/desh/publications/100621wastetowardszerocy.pdf)
40 (www.wrap.org.uk/food-drink/business-food-waste/courtauld-2025)
41 (www.wrapcymru.org.uk/)
42 (llyw.cymru/pwysau-iach-cymru-iach?_ga=2.174649122.1863896357.1562058037-63830782.1559115529)

cadarnhaol hefyd, ac maent yn gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i osod safonau[43] ar gyfer darparu bwyd a diod yn yr ysgol i sicrhau bod plant yn cael cynnig bwyd a diod iachach. Mae brecwast am ddim yn cael ei ddarparu i bawb mewn ysgolion cynradd, yn ogystal â chinio ysgol am ddim i deuluoedd ar incwm isel. Bydd yr adolygiad o'r Cwricwlwm Ysgol Newydd yn ymgorffori profiadau, gwybodaeth a sgiliau sy'n arwain at ffyrdd o fyw iach ac egnïol, gan annog diddordeb mewn bwyd.

Rydym yn hynod ymwybodol o'r risg sydd i blant yn ystod gwyliau ysgol felly rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol[44], sef rhaglen i gyfoethogi'r gwyliau ysgol i blant mewn ardaloedd difreintiedig iawn na fyddent fel arall yn cael profiadau dysgu, rhyngweithio cymdeithasol, bwyd maethlon nac ymarfer corff. Ar raddfa ehangach, byddwn yn cefnogi ymdrechion i wella faint o ffrwythau a llysiau y mae pobl yn eu bwyta ar ôl ymuno â bwrdd cynghori Peas Please[45] ac rydym wedi rhoi cefnogaeth ariannol i'r ymgyrch Veg Power[46].

Rydym yn cydnabod bod rhai unigolion a theuluoedd yn wynebu heriau dyddiol sy'n golygu ei bod hi'n anodd iddynt gael deiet iach a chytbwys. Bydd pobl yn troi at fanciau bwyd mewn rhai amgylchiadau. Mae mynd i'r afael â'r problemau hyn y tu hwnt i gwmpas y strategaeth hon ond mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol, neu gyda phartneriaid eraill, i fynd i'r afael â'r materion hyn. Fodd bynnag, yn y cynllun hwn rydym yn ymrwymo i annog busnesau i weithio gyda'u cymunedau i gefnogi mentrau i sicrhau bod bwyd iach yn fwy hygyrch a fforddiadwy. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at y strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff drwy atal bwyd sy'n wastraff rhag cael ei anfon i gladdfeydd sbwriel.

### Crynodeb

Byddwn yn cefnogi busnesau sy'n cyfrannu at les Cymru, gan fod o fudd i'n pobl a'n cymdeithas. Bydd natur a lefel y cyfraniad yn dibynnu ar y mater dan sylw, y lefel a'r math o gefnogaeth y byddwn yn ei chynnig, maint a natur y busnes, a faint o gefnogaeth rydym wedi'i rhoi i'r busnes o'r blaen. Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r busnes a/neu po fwyaf o gefnogaeth rydym wedi'i rhoi o'r blaen, y mwyaf fydd y cyfraniad y byddwn yn ei ddisgwyl cyn cytuno i gefnogi.

43 Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013.
44 (www.wlga.cymru/food-and-fun-school-holiday-enrichment-programme)
45 (foodfoundation.org.uk/%20peasplease/)
46 (vegpower.org.uk/)

Cwestiwn 9 o 20

Sut ydych chi'n teimlo am ein cynigion?

Cwestiwn 10 o 20

Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth a'r ymrwymiad rydym yn gofyn i fusnesau ei wneud?

Cytuno'n llwyr
Cytuno
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
Anghytuno
Anghytuno'n llwyr

Cwestiwn 11 o 20

Os nad ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi neu'r ymrwymiadau, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Cwestiwn 12 o 20

Oes angen unrhyw weithgaredd ychwanegol nad ydym wedi'i nodi?

Cwestiwn 13 o 20

Allwch chi gyfrannu tuag at gyflawni ein cynigion?

# Bod o Fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas
# Tregroes Waffles

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



**Dros 140,000 o waffls yr wythnos, 7 miliwn o waffls y flwyddyn – dyna'r allbwn aruthrol o dref Llandysul yng ngorllewin Cymru a chartref Tregroes Waffles, brand blasus ac arbennig sydd i'w weld mewn lleoliadau ar hyd a lled y wlad, o Waitrose i Trafnidiaeth i Gymru, a hyd yn oed ar deithiau awyrennau Flybe.**

"Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn arbennig o dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf", yn ôl Kees Huysmans, yr Iseldirwr sy'n siarad Cymraeg, a sylfaenydd y cwmni, a gyflwynodd ei waffls taffi cartref wedi'u gwneud â'i rysáit ei hun i bobl Rheilffordd Henllan ar Noson Tân Gwyllt yn 1983. "Roedd ganddyn nhw'r union weledigaeth fasnachol i helpu cynhyrchwyr bach fel fi, ac fe wnaethon nhw greu ymwybyddiaeth o frand Cymreig cryf, gan wneud pobl yn llawer mwy agored i brynu cynnyrch o Gymru."

Cynyddodd amrediad y cynnyrch pan ddatblygwyd Wafflau Siocled Llaeth a Siocled Tywyll, ac erbyn hyn mae'r Cracyrs Sawrus a'r Cracyrs Caws yn gweddu'n berffaith i gawsiau Cymru. Llandysul yw "canolbwynt y bydysawd" i Kees, lleoliad hyfryd i goncro'r byd, a dyma lle mae'r cwmni'n ehangu, gan ddilyn patrwm John Lewis, wrth i deulu Kees werthu cyfranddaliadau bob blwyddyn, fel y mae'n egluro: "Mae'r 15 aelod o staff yn rhan-berchnogion drwy ymddiriedolaeth rydym wedi'i sefydlu, ac mae hynny'n rhoi llais iddyn nhw yn nyfodol y busnes. Mae ganddyn nhw gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu a chynyddu capasiti yma, felly rydyn ni'n gweithio gyda Banc Datblygu Cymru er mwyn gosod strwythur a chyfarpar newydd y drws nesaf lle gallwn ni gynyddu'r allbwn 400%."

Mae achrediad BRC yn caniatáu i Tregroes gyflenwi cynnyrch i archfarchnadoedd cenedlaethol, yn ogystal â llawer o siopau delicatessen, siopau coffi, caffis a siopau cornel annibynnol. Maen nhw'n gweithio gydag Arloesi Bwyd Cymru ar hyfforddiant i'w Cyfarwyddwr Cynhyrchu, ac yn cydweithio â Chanolfan Cydweithredol Cymru. Maen nhw hefyd yn gwmni sydd â'i wreiddiau yn y gymuned leol – yn dod â grwpiau o blant ysgol a phobl o bob oed i'r safle i ddangos beth sy'n digwydd ym myd gwaith.

# Pennod 4: Hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd

Rydym am greu a chyfleu enw da byd-eang i Gymru fel cenedl sy'n cynhyrchu bwyd, gan sicrhau bod busnesau'n mabwysiadu gwerthoedd cynhyrchu uchel sy'n ennill safonau achredu annibynnol, busnesau sy'n ymgorffori ein gwerthoedd o ran defnyddio adnoddau'n gynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at les ein cenedl. Rydym am ddathlu llwyddiannau busnesau ac arddangos ein sector ledled y DU ac yn rhyngwladol. Blas Cymru/Taste Wales[47] fydd ein prif ddigwyddiad.

Byddwn yn mesur ein llwyddiant yn ôl dau darged:

Targed 4: 300 o fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod i fod ag achrediad priodol ar gyfer eu dibenion busnes erbyn 2026.

Targed 5: Bydd gan 95% o fusnesau yn y sector bwyd a diod sgôr hylendid bwyd o 4 neu 5 erbyn 2026.

## Safonau cynhyrchu uchel

Mae'r farchnad bwyd a diod yn farchnad gystadleuol iawn. Rhaid i ni ddenu sylw am y rhesymau cywir er mwyn llwyddo. Rydym yn credu bod canolbwyntio ar fabwysiadu safonau cynhyrchu uchel mewn busnesau bwyd a diod yn hanfodol i lwyddo. Mae ein hymchwil[48] yn nodi mai dim ond 30% o'n busnesau sy'n cydymffurfio â chynlluniau safonau bwyd sy'n cael eu cydnabod yn y diwydiant, fel SALSA a BRC. Mae hyn yn llawer is na'r hyn sydd ei angen arnom i wireddu ein gweledigaeth. Mae ymuno â chynlluniau achrededig yn feincnod o waith cynhyrchu diogel sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ac o fusnes proffesiynol sy'n awyddus i lwyddo. Mae hynny'n cael ei gydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae achrediad yn agor drysau i werthiannau ac mae bron yn hanfodol i fasnachu'n llwyddiannus â chwsmeriaid manwerthu a chyfanwerthu mawr neu i allforio. Mae llawer o resymau pam nad oes gan fusnesau achrediad ond dyma'r ffactorau cyffredin rydym yn ceisio eu targedu – ymwybyddiaeth o'r manteision, prosesau a gwybodaeth ymarferol, rheoli amser, a chost. Byddwn yn rhoi cefnogaeth a chyngor ymarferol i helpu busnesau i ennill achrediad sy'n berthnasol i'w nodau yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Bydd ennill a chynnal achrediad perthnasol yn dod yn ofynnol er mwyn cael mynediad at lawer o'n cefnogaeth.

Nid yw defnyddwyr yn ymwybodol o gynlluniau achredu'r diwydiant ond maent yn disgwyl i fwyd a diod gael eu cynhyrchu i safonau uchel sy'n cael eu hategu gan y gyfraith ac archwiliadau. Rydym am i'r safonau presennol gael eu cynnal ar ôl Brexit ac rydym yn benderfynol y bydd unrhyw fewnforion i farchnad y DU yn cael eu cynhyrchu i lefel gyfatebol. Byddwn yn gweithio gydag Asiantaeth Safonau Bwyd – Cymru i ddiogelu'r sefyllfa hon wrth i Brexit fynd rhagddo ac wrth i'r DU chwilio am gytundebau masnach â gwledydd eraill.

Mae defnyddwyr yn ymwybodol iawn o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd[49] sy'n amlwg iawn ar y stryd fawr. Nid oes cynifer o bobl yn gwybod bod yr un cynllun yn berthnasol i fusnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â'n gwaith o flaenoriaethu achredu oherwydd mae sgôr uchel yn dangos y safon hylendid gywir mewn ffordd hawdd ei deall. Rydym am i'r sector anelu'n uchel, gyda sgoriau hylendid o 4 (da) neu 5 (ardderchog) yn norm.

47 (tastewales.com/cy/)
48 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/amdanom-ni/rhwystrau-achredu)
49 (www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cynllun-sgorio-hylendid-bwyd)

Daw ein deddfwriaeth labelu bwyd o gyfraith yr UE a bydd yn cael ei throsglwyddo i'n cyfraith ni ar ôl Brexit er mwyn cynnal y status quo. Rydym yn ymwybodol bod y cynnyrch ar y farchnad a dewisiadau defnyddwyr yn newid. Pan fydd rheswm dros ddatblygu'r gyfraith bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i wneud hynny er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir a pherthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau ar sail yr wybodaeth honno.

### Tarddiad

Rydym wedi llwyddo i ddatblygu ein casgliad o gynnyrch bwyd a diod gwarchodedig[50] o dan gynlluniau dangosydd daearyddol yr UE. Mae llawer o ddefnyddwyr yn gweld y rhain fel nod ansawdd, cynnyrch gwreiddiol a deniadol. Rydym yn ystyried cynnyrch bwyd a diod gwarchodedig yn gynnyrch eiconig ac rydym am gael mwy o gynnyrch felly. Rydym wedi ymrwymo i gynnal statws y cynnyrch hwn ar ôl Brexit ac i weithio gyda llywodraethau ledled y DU i sefydlu cynllun ar gyfer y DU gyfan a fydd yn gweithredu i'r un safon er mwyn adeiladu ar ein llwyddiant. Byddwn yn chwilio am fusnesau i ddatblygu cynnyrch a all ymuno â chynllun newydd y DU ac yn eu cefnogi i wneud hynny.

### Ein cynnyrch a'n busnesau fel brand o'n gwerthoedd cynaliadwy

Mae gan ddefnyddwyr fwyfwy o ddiddordeb yn nharddiad cynnyrch, arferion moesegol, cyfrifoldeb amgylcheddol a hanes difyr. Mae ein hymchwil Gwerth Cymreictod[51] yn cyfeirio at bwyntiau gwerthu cryf posibl. Hoffem bwyso ar y rhain mewn ffordd sy'n ei gwneud yn amlwg i ddefnyddwyr a phrynwyr masnach bod ein sector yn rhan o gadwyn gyflenwi sy'n ymgorffori gwerthoedd brand cynaliadwy sy'n gwneud ein bwyd a'n diod yn wahanol i'n cystadleuwyr.

Byddwn yn gweithio gyda busnesau i ymgorffori'r gwerthoedd hyn ar draws y gadwyn gyflenwi, ffyrdd y gall busnesau ddangos eu cymwysterau. Byddwn yn mynd ati'n frwd i hybu'r gwerthoedd hyn yn y farchnad i godi ymwybyddiaeth fyd-eang o Gymru fel canolfan gynhyrchu sy'n byw yn unol â'i gwerthoedd.

### Twristiaeth

Rydym yn credu y gall ein cynnyrch greu ymdeimlad o Gymru fel lle ac fel cartref i gynnyrch o ansawdd uchel. Mae twristiaeth yn cynnig cyfleoedd cadarn. Wrth i Lywodraeth Cymru geisio datblygu twristiaeth, byddwn yn adeiladu ar y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd[52] i wella'r bwyd a'r diod rydym yn ei gynnig i ymwelwyr, i ganolbwyntio ar ganolfannau yn ein seilwaith trafnidiaeth a'n prif gyrchfannau fel cyfleoedd i hybu bwyd a diod Cymreig, i greu ymdeimlad o Gymru fel cenedl fwyd. Rydym yn gweld cyfleoedd i ddatblygu clystyrau busnes sy'n cyfuno'r diwydiant bwyd a'r diwydiant twristiaeth.

### Allforion

Mae allforion yn gyfle i werthu y gall busnesau fanteisio arno i dyfu a hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd ledled y byd. Mae allforion yn cynyddu'n dda mewn gwerth[53] ond rydym yn tanberfformio o'n cymharu â gwledydd a rhanbarthau eraill y DU. Drwy godi ein proffil y tu hwnt i Gymru a'r DU, gall allforion feithrin cydnabyddiaeth o'n henw da fel cenedl sy'n cynhyrchu bwyd. Mae busnesau sy'n llwyddo i allforio'n tueddu i fod yn fwy cystadleuol a chynhyrchiol, sy'n eu helpu i ffynnu ym marchnad y DU hefyd.

Rydym yn bwriadu cefnogi busnesau i fynd ar drywydd marchnadoedd allforio mewn ffordd systematig sydd wedi'i chynllunio ac sy'n seiliedig ar wybodaeth am y farchnad. Byddwn yn helpu busnesau i nodi a thargedu marchnadoedd allforio a llwybrau iddynt ar sail gwaith ymchwil.

50 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/sut-gallwn-ni-helpu/cynllun-enwau-bwyd-gwarchodedig-yng-nghymru)
51 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy/amdanom-ni/bwyd-diod-o-gymru-mewn-niferoedd-gwerth-cymreictod)
52 (llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/cynllun-gweithredu-2015-i-2020-ar-gyfer-twristiaeth-bwyd_0.pdf)
53 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/documents/2019-04-04%20-%20Food%20-%20Research%20-%20Food%20and%20Drink%20annual%20exports%20briefing%20-%202018%20-%20Welsh%20-%20WEB%20%2837683%29%20alias.pdf)

# Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd
# Somerdale International

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



**Mae cwmni Somerdale, sy'n allforio cawsiau blasus i fanwerthwyr, cyfanwerthwyr, dosbarthwyr a darparwyr gwasanaethau bwyd mewn dros 50 o wledydd ar draws y byd, wedi ennill dwy wobr gan y Frenhines am Fasnach Ryngwladol. Somerdale yw'r prif allforiwr caws i farchnad yr Unol Daleithiau, a daw llawer o'r cawsiau hyn o Gymru. Mae'r cwmni'n allforio cawsiau i Efrog Newydd bob wythnos ac mae hefyd yn gwerthu llawer iawn yn y Caribî a'r Dwyrain Canol.**

Mae gan Somerdale gynrychiolwyr yn yr Unol Daleithiau, Awstralia a Tsieina lle y mae marchnad gynyddol soffistigedig yn datblygu.

Dywed Cyd-sylfaenydd a Rheolwr-Gyfarwyddwr Somerdale, Stephen Jones: "Credwn fod y cynnyrch o Gymru yn gynnyrch heb ei ail. Mae llaeth arbennig yng Nghymru sy'n creu cheddar arbennig y mae modd ei gludo'n ddidrafferth."

Mae gan Somerdale bartneriaethau strategol gyda Hufenfa De Arfon ac Abergavenny Fine Foods, sydd wedi bodoli ers tua 25 o flynyddoedd. "Mae gennym berthynas dda iawn a hirdymor gyda chynhyrchwyr Cymreig. Maent yn helpu i ddatblygu marchnadoedd gyda ni, gan gydweithio â ni ar arddangosfeydd gan gynnwys rhai yn Shanghai eleni. Er bod hanner cawsiau Cymreig Somerdale yn cael eu hallforio i'r Unol Daleithiau mae marchnadoedd Asia yn datblygu wrth i chwaeth pobl newid, ac wrth i bobl fwynhau blasau mwy Gorllewinol.

"Mae cynhyrchwyr llaeth Cymru yn ymroddedig iawn ac maent yn frwd iawn dros eu cynnyrch. Mae'n cwsmeriaid yn mwynhau dysgu ychydig mwy am Gymru. Gan fod Cymru'n wlad mor wych i ymweld â hi ni'n ceisio dangos rhywfaint o gefn gwlad Cymru iddynt tra'u bod ar ymweliad yma."

O safbwynt cydweithio â Llywodraeth Cymru, mae argraff Stephen yn un bositif iawn. "Mae cydweithio â Llywodraeth Cymru yn waith buddiol iawn, ac maent wedi cynnig llawer iawn o gymorth o safbwynt arbrofi â chynhyrchion newydd a helpu gweithgynhyrchwyr i ddatblygu blasau newydd ar gyfer marchnadoedd allforio."

www.somerdale.com

Mae ein hallforion yn werth £539 miliwn ac mae tri chwarter y rheini'n mynd i'r UE. Mae ein cig oen, ein prif gynnyrch allforio, yn dibynnu fwy byth ar y farchnad hon. Mae'r ddibyniaeth gref hon ar un brif farchnad a chynnyrch allforio yn risg. Bydd rhaid i ni addasu ein dull o ran marchnadoedd yr UE yn dibynnu ar Brexit, gan ganolbwyntio ar roi hwb i hyder defnyddwyr yng ngallu ein sector i barhau i gynhyrchu a masnachu. Byddwn yn ceisio datblygu cyfleoedd newydd – yn enwedig yn y Dwyrain Canol, lle mae'r bont awyr i Doha wedi agor cysylltiad uniongyrchol newydd i Gymru â marchnad ddefnyddwyr fawr sy'n dal i dyfu ac sy'n chwilio am gynnyrch o ansawdd uchel. Mae gan Lywodraeth Cymru rwydwaith o swyddfeydd rhyngwladol yn darparu gwybodaeth a chyrhaeddiad ar lawr gwlad. Byddwn yn manteisio ar hyn. Pan fyddwn yn gweld mantais, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU hefyd gan gydweithio â'i rhaglen fasnachu a defnyddio ei rhwydwaith o lysgenadaethau.

O ran cymorth busnes penodol, byddwn yn datblygu ein rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol[54] a'n rhaglen Cyfleoedd Masnach[55] sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau, yn ogystal ag i'n clwstwr allforio – y Clwb Allforio[56]. Byddwn yn darparu cyngor technegol ynghylch allforio i farchnadoedd penodol, yn ogystal â gwybodaeth am reoli risgiau. Byddwn yn cyflwyno prynwyr a dosbarthwyr posibl. Byddwn yn cefnogi hyfforddiant ar reoli allforio. Rydym yn defnyddio Llundain fel canolfan hyfforddi lle mae darpar allforwyr yn cael dysgu eu crefft a byddwn yn targedu Llundain fel marchnad o ansawdd uchel sy'n tyfu'n gyflym ei hun hefyd. Rydym wedi canfod bod achrediadau busnes sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn hanfodol i roi credadwyedd i fusnesau. Bydd rhaid i fusnesau rydym yn eu cefnogi ddangos eu hymrwymiad a'u cymwysterau drwy gael achrediad addas cydnabyddedig yn y diwydiant neu weithio at hynny a thrwy ddangos ymrwymiad i gynllunio a sicrhau trefniadau allforio llwyddiannus.

Mewn marchnadoedd rhyngwladol, byddwn yn gwneud orau drwy newid ein cynnyrch a'n henw da yn dibynnu ar y farchnad benodol a'r canfyddiadau lleol o Gymru a'r DU, ein hanes masnachu yno, a'r cyfle busnes. Bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

### Cydweithredu rhyngwladol

Ein huchelgais yw i Gymru barhau i ymgysylltu mewn ffordd gadarnhaol â'r byd, yn enwedig yn Ewrop, ein marchnad agosaf. Byddwn yn ceisio cryfhau ein partneriaethau a'n mentrau â gwledydd a rhanbarthau ledled y byd, yn unol â Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

### Dathlu ein sector ac arddangos ein cynnyrch

Mae gennym lawer i fod yn falch ohono. Yn ogystal â thyfu mewn maint, mae ein sector wedi cynhyrchu mwyfwy o gynnyrch hynod lwyddiannus, gan ennill gwobrau Great Taste[57]. Mae Great Taste yn cael ei chydnabod fel gwobr gwerth ei hennill ac mae'n gydnabyddiaeth o gynnyrch o'r ansawdd gorau. Byddwn yn annog busnesau i ymgeisio am wobrau Great Taste a gwobrau eraill, a byddwn yn dathlu eu llwyddiannau.

Byddwn yn mynd ati'n weithredol i ddefnyddio ein brand Bwyd a Diod Cymru[58] ar bob sianel gyfathrebu er mwyn hyrwyddo ein sector.

Mae sioeau masnach, digwyddiadau, ac ymweliadau datblygu masnach yn llwyfannau gwych i fusnesau ddangos eu cynnyrch ac ennill busnes. Blas Cymru fydd ein prif ddigwyddiad a bydd yn cael ei gynnal bob yn ail flwyddyn. Byddwn yn dewis arddangosfeydd o'r DU a rhai

54 (businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/data%20sheets%20-%20itd%20-%20welsh.pdf)
55 (businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/data%20sheets%20-%20ito%20-%20welsh.pdf)
56 (/businesswales.gov.wales/foodanddrink/sites/foodanddrink/files/Export%20Club%20Flyer%20-%20High%20Res%20-%20Welsh_0.pdf)
57 (greattasteawards.co.uk/welcome-to-the-great-taste-awards-2013/)
58 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy)

rhyngwladol ar sail gwybodaeth am y farchnad fel y gallwn ni dargedu'r cyfleoedd gorau. Byddwn yn gwneud hyn ar y cyd â thîm masnachu rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gyda Hybu Cig Cymru[59] sydd â'i gynlluniau penodol ei hun i ddatblygu a marchnata sector cig coch Cymru a, phan fydd hynny o fudd, â llywodraeth y DU.

### Crynodeb

Rydym yn ymrwymo i wella proffil y sector bwyd a diod yn y DU ac yn rhyngwladol, gan helpu busnesau i allforio a gweithio yn unol â safonau uchaf y diwydiant mewn ffyrdd sy'n sicrhau arferion busnes rhagorol, ac yn cefnogi enillion o ran cynhyrchiant a ffyrdd sydd hefyd yn ymgorffori ein gwerthoedd fel cadwyn gyflenwi, sy'n canolbwyntio fwyfwy ar gynaliadwyedd. Byddwn yn canfod ac yn manteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau â'r sector twristiaeth a gwasanaethu ac yn ategu gwaith sydd wedi'i ddisgrifio'n barod er mwyn creu rhwydweithiau a llwybrau cadarnach i'r farchnad.

Byddwn ninnau'n disgwyl i'r busnesau rydym yn eu cefnogi ymrwymo i anelu at safonau cynhyrchu uchel drwy ddulliau achredu sy'n cael eu cydnabod a'r sgoriau gorau yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Rydym yn disgwyl iddynt fabwysiadu gwerthoedd brand cynaliadwy a dathlu llwyddiant y sector ar y cyd.

---

Cwestiwn 14 o 20

Sut ydych chi'n teimlo am ein cynigion?

Cwestiwn 15 o 20

Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi ar gyfer cymorth a'r ymrwymiad rydym yn gofyn i fusnesau ei wneud?

- Cytuno'n llwyr
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n llwyr

Cwestiwn 16 o 20

Os nad ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi'u nodi neu'r ymrwymiadau, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

Cwestiwn 17 o 20

Oes angen unrhyw weithgaredd ychwanegol nad ydym wedi'i nodi?

Cwestiwn 18 o 20

Allwch chi gyfrannu tuag at gyflawni ein cynigion?

---

59 (hccmpw.org.uk/cy)

# BlasCymru TasteWales 2019

Ym mis Mawrth 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru BlasCymru / TasteWales. Hwn oedd yr ail ddigwyddiad masnach rhyngwladol mawr i ni ei gynnal er mwyn tynnu sylw at y goreuon yn ein diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, a hynny i gynulleidfa genedlaethol a rhyngwladol.


Mae Blas Cymru/Taste Wales yn ddigwyddiad sy'n cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru bob yn ail blwyddyn. Mae'n cysylltu cynhyrchwyr a gweithgynhyrchwyr â Phrynwyr o'r DU a thramor. Yn ogystal â'r elfen broceriaeth, cynhelir cynhadledd ac arddangosfa fasnach i hyrwyddo'r diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru.











**1600** o Gyfarfodydd Busnes

**103** o Gynhyrchwyr

**159** o gynnyrch wedi'u lansio

**116** o brynwyr yn y DU

**60** Prynwyr y DU mewn gwasanaeth bwyd

**79** Prynwyr rhyngwladol

**19** o wledydd yn cael eu cynrychioli

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Pennod 5: Partneriaethau rydym yn eu ceisio gyda'r sector bwyd a diod

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, rydym yn addo gweithio gyda busnesau a rhoi cymorth i fusnesau. Yn gyfnewid am y cymorth hwnnw, rydym yn gofyn iddynt ymrwymo i fod yn uchelgeisiol, i wella eu hunain ac i gynnig rhywbeth yn gyfnewid i'r sector yn ei gyfanrwydd ac i Gymru hefyd. Mae nifer o'n busnesau eisoes yn cyflawni dros Gymru yn y ffyrdd maent yn gweithredu a dim ond megis dechrau y mae busnesau eraill.

Ceir crynodeb o sut rydym yn rhagweld y byddwn yn gweithio gyda busnesau yn y bartneriaeth hon yn y tabl isod. Mae wedi'i drefnu yn ôl ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n prif nodau. Byddwn yn datblygu rhagor o fanylion mewn is-gynlluniau gweithredol wrth i'r cynllun strategol hwn ddatblygu.

| Thema | 'Cynnig' LIC/y Bwrdd | 'Ymrwymiad' busnesau |
|---|---|---|
| Cymorth ar lefel gyffredinol | • Bydd LIC a'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth a chymorth cadarn i'r diwydiant.<br>• Bydd LIC a'r Bwrdd yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ôl y targedau a'r dangosyddion.<br>• Bydd cymorth yn dibynnu ar gael rhywbeth am rywbeth. Bydd modd cael mynediad at wahanol lefelau cymorth, yn amodol ar gyflawni ymrwymiadau penodol. | • Bydd gan fusnesau safonau a gwerthoedd uchel, sy'n cael eu rhannu drwy'r gadwyn gyflenwi gyfan.<br>• Bydd busnes yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n dangos y ffordd i fusnesau eraill. |
| **Tyfu ein busnesau**<br>Mae arnom eisiau cynyddu gwerth y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, er mwyn i faint y sector drwyddo draw dyfu ac er mwyn gwella cynhyrchiant. Byddwn yn canolbwyntio ar dwf cynaliadwy, yn hytrach na byrdymhoriaeth, a rhaid cyfrannu at gyflawni'r nodau 'llesiant' a'u cydnabod mewn ffordd ystyrlon. | • Adeiladu cadwyni cyflenwi cadarnach drwy adnabod a chefnogi cysylltiadau rhwng cynhyrchu cynradd, gweithgynhyrchu, drwodd i gyfanwerthu/gwasanaethu/manwerthu. Ceisio ychwanegu gwerth a chreu effeithiau lluosydd.<br>• Darparu buddsoddiad uniongyrchol a helpu i ganfod buddsoddwyr trydydd parti neu gyfleoedd cyllido addas i wella cynhyrchiant busnesau yn y tymor hir a chynyddu graddfa. | Bydd busnesau a rhanddeiliaid eraill sy'n cael buddsoddiad neu gymorth gan Lywodraeth Cymru/y Bwrdd yn ymrwymo i wneud y canlynol:<br>• Dilyn dull gweithredu strwythuredig, wedi'i gynllunio ar gyfer y tymor hir, sy'n cynnwys cynlluniau busnes cadarn, targedu'r farchnad a gwella'u cynhyrchiant. |

<table>
<tr><th>Thema</th><th>‘Cynnig’ LIC/y Bwrdd</th><th>‘Ymrwymiad’ busnesau</th></tr>
<tr><td></td><td><ul><li>Darparu cymorth ar gyfer busnesau o bob maint a busnesau newydd eu sefydlu.</li><li>Darparu gwasanaeth cynghori cynhwysfawr ar arloesi a’r maes technegol.</li><li>Meithrin capasiti cyfun y sector drwy hyrwyddo a dwysau’r model clwstwr ymhlith busnesau.</li><li>Ymchwilio i farchnadoedd newydd a rhai sy’n bodoli’n barod a chefnogi’r broses o ddatblygu llwybrau cadarn i’r farchnad.</li><li>Denu a chefnogi buddsoddiadau uniongyrchol o dramor.</li></ul></td><td><ul><li>Gweithio ar y cyd â’u cyfoedion a’u cadwyni cyflenwi, gan ddatblygu cymunedau busnes cadarn ledled Cymru, gyda’u gwreiddiau yn y cymunedau lleol.</li><li>Meddu ar yr uchelgais a’r cynlluniau i dyfu o ran graddfa.</li><li>Mabwysiadu arferion gorau cydnabyddedig wrth weithredu a datblygu eu busnes.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Bod o fudd i’n pobl a’n cymdeithas<br><br>Byddwn yn disgwyl i’r busnesau rydym yn eu cefnogi fod o fudd i Gymru gyda’n cymorth ni’n hwb er mwyn cyflawni rhagor o fanteision i’r gymuned.</td><td><ul><li>Hybu busnesau i ymrwymo i’r Adduned Sgiliau sector bwyd.</li><li>Sicrhau bod gweithgareddau’n canolbwyntio ar wella sgiliau drwy’r sector gan weithio gyda’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (sgiliau technegol, rheoli ac arwain, prentisiaethau) a chydlynu gweithgareddau ar gyfer hynny.</li><li>Codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y sector bwyd (Gyrfaoedd Blasus).</li><li>Datblygu dulliau gweithredu i gael y sector i gyfrannu mwy ac ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad dan arweiniad y diwydiant.</li></ul></td><td>Busnesau a rhanddeiliaid eraill sy’n cael buddsoddiad neu gymorth gan Lywodraeth Cymru neu’r Bwrdd i ymrwymo i’r canlynol:<ul><li>Darparu ‘gwaith teg’ a mabwysiadu’r Cyflog Byw Cymreig.</li><li>Ymrwymo i fuddsoddi mewn gweithwyr yn y tymor hir, gan wella eu sgiliau a’u llesiant.</li><li>Bod yn rhagweithiol wrth godi ymwybyddiaeth o’r sector bwyd fel gyrfa dda a lle da i weithio.</li></ul></td></tr>
</table>

| Thema | 'Cynnig' LIC/y Bwrdd | 'Ymrwymiad' busnesau |
|---|---|---|
| | • Blaenoriaethu cymorth i fusnesau sydd wedi ymrwymo i fod yn gynaliadwy drwy wella: effaith eu cynnyrch ar iechyd; darparu 'gwaith teg'; datgarboneiddio prosesau cynhyrchu; defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy a lleihau gwastraff; cynnwys ffynonellau olew palmwydd cynaliadwy yn eu cadwyn gyflenwi; ymgysylltu â rhaglenni gwella gwyliau ysgol, ac ymgysylltu â'r gymuned fel cymryd camau i fynd i'r afael â thlodi.<br>• Parhau i fod ynghlwm â Peas Please ac ymgyrch Veg Power. | • Defnyddio adnoddau yn gynaliadwy a lleihau gwastraff ac ôl troed carbon y sector.<br>• Dangos ymrwymiad i faterion cymdeithasol ehangach fel tlodi a gwella iechyd y cyhoedd.<br>• Ymrwymo i 'Werthoedd Brand Cynaliadwy'. |
| **Hyrwyddo Cymru y genedl fwyd**<br>Byddwn yn codi proffil y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, mewn ffyrdd sy'n gwneud iddo ymddangos yn ddeniadol ac fel rhywbeth gwerthfawr y mae pobl yn dymuno prynu ganddo ac uniaethu ag ef. | • Darparu arweinyddiaeth a phroffil uwch i'r sector bwyd yng Nghymru, yn y DU a'r tu hwnt.<br>• Cefnogi busnesau i gael mynediad i farchnadoedd allforio a thyfu oddi mewn iddynt drwy ddarparu cyngor, hyfforddiant, cynlluniau a 'sesiynau dwys'.<br>• Gwneud Blas Cymru yn ddigwyddiad pennaf y diwydiant bwyd yn rhyngwladol. | Busnesau a rhanddeiliaid eraill sy'n cael buddsoddiad neu gymorth gan Lywodraeth Cymru neu'r Bwrdd i ymrwymo i'r canlynol:<br>• Mabwysiadu a byw yn ôl y 'gwerthoedd brand cynaliadwy'. |

| Thema | 'Cynnig' LIC/y Bwrdd | 'Ymrwymiad' busnesau |
|---|---|---|
| | • Dathlu a thynnu sylw at lwyddiannau drwy gefnogi ceisiadau ar gyfer gwobrau 'Great Taste' a gwobrau eraill.<br>• Hyrwyddo Cymru mewn digwyddiadau masnach ac ymweliadau masnach ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.<br>• Datblygu 'gwerthoedd brand' Cymru, sy'n seiliedig ar gynaliadwyedd a safonau cynhyrchu uchel, ac annog mwy i'w mabwysiadu drwy'r sector a'i gadwyni cyflenwi.<br>• Hyrwyddo twristiaeth bwyd a chysylltiadau â diwydiant twristiaeth Cymru a'r sector gwasanaethu.<br>• Marchnata Cymru fel cyfle gwych ar gyfer Buddsoddi Uniongyrchol o Dramor.<br>• Cymryd rhan mewn prosiectau cydweithio rhyngwladol i hyrwyddo Cymru a'i chynnyrch.<br>• Datblygu a hyrwyddo cynllun yn y DU i olynu cynlluniau GI yr UE.<br>• Hyrwyddo cynlluniau achredu'r diwydiant a chynnig cymorth ar yr amod bod busnesau yn manteisio ar y rhain. | • Cyd-berchnogaeth â LIC i ddatblygu marchnadoedd newydd yn y DU a/neu'n rhyngwladol.<br>• Manteisio ar gynlluniau achredu sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. |

Cwestiwn 19 o 20

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?

# Atodiad 1: Targedau a Dangosyddion

Wrth baratoi'r ymgynghoriad hwn, mae nifer o bobl wedi dweud wrthym fod prif darged twf economaidd amlwg Tuag at Dwf Cynaliadwy wedi bod o fudd o ran hybu cynnydd. Ond, mae hefyd wedi cael ei feirniadu am fod yn rhy syml, am beidio ag ystyried agweddau pwysig eraill effaith a datblygiad y sector. Rydym yn cytuno. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi cynnig pum targed CAMPUS sy'n cwmpasu'r weledigaeth a'r genhadaeth, ac sy'n gysylltiedig â thair prif thema'r genhadaeth a'r camau gweithredu arfaethedig. Mae'r targedau'n cyfleu prif nodau'r weledigaeth a'r genhadaeth, ac mae modd iddynt fod yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gweithgareddau arfaethedig. Ceir cymysgedd o dargedau economaidd yn ogystal â thargedau sy'n adlewyrchu ansawdd a diogelwch a'r cyfraniad y gall y sector ei wneud i gynaliadwyedd a'r Nodau Llesiant. Rydym yn credu y byddai mwy na llond llaw o dargedau'n ddryslyd. Oherwydd cymhlethdod y sector bwyd a diod, a'i berthnasedd i gynifer o agweddau yn ein cymdeithas, ni allwn osod targed ar gyfer popeth, ac rydym yn gobeithio ein bod yn dal i gadw golwg ar y darlun mawr.

Yn ogystal â'r pum targed, rydym yn cynnig monitro set fwy o ddangosyddion er mwyn olrhain cynnydd y sector yn ei ystyr ehangach. Nid oes targedau'n gysylltiedig â'r dangosyddion hyn, ond mae perthynas rhwng nifer ohonynt a'r targedau eu hunain. Eu diben yw ein helpu ni i ddeall a monitro ein cynnydd er mwyn i ni allu tywys a datblygu ein cymorth wrth i amser fynd rhagddo ac wrth i ni ddatblygu'r cynllun strategol. Byddwn yn adrodd ar y targedau a'r dangosyddion yn barhaus, wrth i ni gael data newydd ar dudalennau gwe Bwyd a Diod Cymru[60].

### Sut mae'r sector bwyd a diod yn cael ei ddiffinio

Yr hyn rydym yn ei olygu wrth y sector bwyd a diod yw busnesau sy'n ymwneud â phrosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod ar gyfer pobl ac anifeiliaid. Rydym yn cynnwys rhai busnesau cysylltiedig sy'n arbenigo mewn cynhyrchion bwyd a diod fel pecynnu bwyd, gweithgynhyrchu peiriannau bwyd, a chyfanwerthu bwyd. Nid ydym yn cynnwys manwerthu bwyd na'r diwydiannau croeso/twristiaeth oherwydd mae'r rhain yn sectorau sylfaenol penodol eraill. Nid ydym yn cynnwys ffermio na physgota oherwydd mae'r rhain hefyd yn dod o dan gynigion ymgynghori a chymorth ar wahân, ac mae ganddynt eu trefniadau rheoleiddio penodol eu hunain. Er mwyn olrhain ein targedau a'n dangosyddion, bydd yn rhaid i ni ddiffinio'r sector bwyd a diod yn fanwl o ran codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol[61] oherwydd dyma yw arfer safonol y llywodraeth ar gyfer dosbarthu gweithgarwch economaidd. Wrth gwrs, mae bywyd go iawn yn fwy cymhleth na'r gwahaniaethu taclus y mae gofyn i ni ei wneud er mwyn cyfri'r niferoedd. Bydd ein polisi'n golygu y byddwn yn ystyried cefnogi busnes yn ôl rhinweddau achosion unigol, hyd yn oed os yw ar gyrion y sector bwyd a diod ac os nad yw ei brif weithgarwch yn dod o fewn ein diffiniad ystadegol o'r sector.

#### Targed 1: Bydd gwerth trosiant y Sector Bwyd a Diod yn tyfu bob blwyddyn i gyd-fynd â'r newid yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn ogystal â 2% yn ychwanegol.

Rydym yn argymell targed blynyddol a chymharol, yn hytrach na tharged â diwedd penodol, oherwydd mae'n dangos a yw'r diwydiant yn perfformio'n well o gymharu â'r hinsawdd economaidd gyffredinol yn y DU a sut mae prisiau defnyddwyr yn newid. Mae'r dull gweithredu hwn yn ystyried y posibilrwydd y gallai'r economi arafu, ond y gallai'r sector bwyd berfformio'n well o hyd mewn termau cymharol. Rydym yn credu mai'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw'r mesur sy'n fwyaf perthnasol i'r sector bwyd a diod. Rydym yn derbyn nad yw'n berffaith, ond mae ganddo gysylltiad â gwerthu bwyd a diod. Byddai'r targed rydym yn ei gynnig yn adlewyrchu gwerthiant a llwyddiannau yn yr holl gategorïau bwyd a diod, gan gynnwys allforion.

60 (businesswales.gov.wales/foodanddrink/cy)
61 (www.gov.uk/government/publications/standard-industrial-classification-of-economic-activities-sic.cy)

Rydym yn teimlo nad yw dim ond perfformio'n well na newid yn y mynegai CPI yn ddigon uchelgeisiol. Rydym yn cynnig datgan bwriad i berfformio'n well drwy ychwanegu 2% at yr hyn rydym yn ei ddisgwyl o ran gwerth. Mae 2% yn adlewyrchu'r hyn rydym ni'n teimlo sy'n ddeilliant uchelgeisiol.

### Targed 2: Bydd Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) bob awr o waith yn y sector bwyd yn tyfu bob blwyddyn.

Mae GVA am bob awr o waith yn cynrychioli mesur o gynhyrchiant. Mae'n cyfleu pob agwedd ar welliant y sector – domestig ac allforio a mewnfuddsoddiad. Mae arnom eisiau gwella cynhyrchiant bob blwyddyn, ni waeth sut gallai amodau masnachu'r sector newid.

### Targed 3: cynyddu nifer y busnesau yn y sector bwyd a diod sydd wedi ymrwymo i weithredu er budd trigolion Cymru yn eang drwy:

- W fod wedi llofnodi'r Adduned Sgiliau erbyn 2026.
- X fod wedi llofnodi Cytundeb Courtauld erbyn 2025.
- Y % o fusnesau yn y sector yn talu'r Cyflog Byw Cymreig o leiaf i bob un o'u gweithwyr erbyn 2026.
- Z busnesau'n cyfrannu at y Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol.

Mae'r targed cyfun hwn yn adlewyrchu ymrwymiad busnesau i anghenion ehangach Cymru a'r boblogaeth. Er mai gwirfoddol yw ymrwymo i'r Adduned Sgiliau a Courtauld 2025, bydd y targed yn cael ei ysgogi gan fusnesau'n cydnabod eu rôl ehangach a dull gweithredu 'rhywbeth am rywbeth' y cynllun. Byddwn yn gofyn i'r busnesau rydym yn eu cefnogi dalu'r Cyflog Byw Cymreig i'w holl weithwyr erbyn 2026, neu eu bod yn gweithio tuag at hynny, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'r cymorth rydym ni'n ei gynnig yn benodol. Y mae a wnelo'r rhan hon o'r targed â'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yn ei gyfanrwydd, wrth gwrs, a fyddai'n cynnwys busnesau nad ydym yn eu cefnogi ac efallai nad ydynt yn rhannu ein huchelgais. Mae busnesau eisoes yn cyfrannu at y Rhaglen Gwella Gwyliau Ysgol a'n huchelgais ni yw bod mwy o fusnesau'n ymuno.

Rydym yn gofyn i ymgyngoreion awgrymu pa niferoedd y dylai w, x, y a z eu cynrychioli.

### Targed 4: bydd gan 300 o fusnesau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod achrediad priodol ar gyfer eu dibenion busnes erbyn 2026.

Dim ond tua 30% o'n busnesau sydd wedi cael achrediad sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiant ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhy isel. Rydym yn gwybod bod ennill a meddu ar achrediad yn gwella cynhyrchiant, twf busnes a llwyddiant. Rydym yn cynnig canolbwyntio'n fanwl ar y nifer sy'n manteisio ar achrediad a gosod targed i gydnabod hynny. Byddai'r targed yn golygu y byddai nifer y busnesau'n cynyddu tua 50% o'u cymharu â nawr.

### Targed 5: bydd gan 95% o fusnesau yn y sector bwyd a diod sgôr hylendid bwyd o 4 neu 5 erbyn 2026.

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn berthnasol i fusnesau gweithgynhyrchu bwyd a chyfanwerthu ac mae'n feincnod o weithio yn unol â safonau da. Sgôr o 4 a 5 yw'r gorau. Yn ein barn ni, dylai'r sector anelu at y sgoriau uchaf a'u cyflawni, ac rydym wedi gosod targed heriol yn datgan hynny. Nid ydym yn credu bod sgôr o 3 (boddhaol) yn ddigon da i adlewyrchu'r safon ragorol y dylai'r sector anelu tuag ati, felly nid ydym wedi cynnwys hyn yn y targed.

## Dangosyddion

Mae dangosyddion yn mesur cynnydd, ond nid ydynt yn dargedau. Rydym yn cynnig cyflwyno cyfres eang o fesurau i weld a yw'r sector yn datblygu mewn ffordd gadarnhaol. Mae modd adrodd ar ddangosyddion bob blwyddyn, ac mae dulliau cadarn o gipio data ar waith er mwyn gwneud hyn. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar wefan Busnes Cymru drwy gydol oes y cynllun strategol er mwyn cyflwyno cofnod parhaus o gynnydd.

| Thema Ymgysylltu | Dangosydd | Sylwebaeth |
|---|---|---|
| Tyfu Ein Busnesau | Gwerth trosiant y sector | Mae'n mesur cyfanswm y gwerth economaidd yn ôl gwerthiant yn y sector bwyd a diod drwyddo draw. |
| | Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) | Mesur o werth ychwanegol. |
| | Nifer y Busnesau | Mesur o faint y sector. |
| | Cyfradd Cychwyn Busnesau | Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn mesur iechyd economaidd y sector. |
| | Cyfradd Goroesi Busnesau | |
| | Lefelau Hyder Busnesau Bwyd | |
| Bod o Fudd i'n Pobl a'n Cymdeithas | Cyfanswm Niferoedd sy'n cael eu Cyflogi | Mesur o nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi. |
| | Nifer y busnesau sy'n ymrwymo i'r 'Adduned Sgiliau' | Mesur o fusnesau'n cydnabod bod gweithlu medrus yn arwain at well llwyddiant i fusnesau. |
| | Nifer y busnesau yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i Courtauld 2025 | Mesur sy'n dangos bod busnesau wedi ymrwymo i leihau gwastraff bwyd a dim gwastraff bwyd yn ystod y gwaith cynhyrchu a dosbarthu. |
| | Gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector | Mesur o gynnydd tuag at ddatgarboneiddio. |
| | Cyfran y gweithwyr sy'n cael y Cyflog Byw Cymreig neu well | Mae hyn yn cyfrannu at yr egwyddor o waith teg ac mae'n fesur gwrthdlodi. |

| Thema Ymgysylltu | Dangosydd | Sylwebaeth |
| --- | --- | --- |
| Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd | Nifer y cynhyrchion sydd wedi ennill Gwobrau Great Taste | Mesur o'r sector yn gweithio i 'lefel ansawdd' uchel ac yn byw ei 'werthoedd brand'. |
| | Nifer y busnesau sy'n cael achrediad sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiant | Mesur o'r sector yn gweithio i 'lefel ansawdd' uchel ac yn byw ei 'werthoedd brand'. Mae'r nifer sy'n manteisio ar achrediad hefyd yn gysylltiedig â gwella cynhyrchiant a chynnydd mewn trosiant. |
| | Safonau Busnes Bwyd gyda sgôr o 4 neu 5 o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Busnesau Bwyd | Mesur o'r sector yn gweithio i 'lefel ansawdd' uchel ac yn byw ei 'werthoedd brand'. |
| | Nifer a gwerth prosiectau buddsoddi uniongyrchol o dramor yng Nghymru | Mesur procsi o ddiddordeb allanol a hyder yn y sector. |
| | Gwerth Allforion | Mesur o lwyddiant mewn allforion sydd ar gynnydd. |

## Cwestiwn 20 o 20

Sut ydych chi'n teimlo am y pum targed CAMPUS?